# **Adroddiad Ymgynghori – Mai 2026**

Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn

## Cynnwys


1. TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD STATUDOL ..... 3
(i) Y broses ymgynghori ..... 3
(ii) Ymatebion i'r ymgynghoriad ..... 4
(iii) Crynodeb o'r prif faterion a nodwyd yn yr ymatebion ..... 4
2. FFURFLEN YMATEB ..... 6
3. YMGYNGHORI GYDA PHLANT A PHOBL IFANC ..... 6
4. YMATEB ESTYN ..... 10
5. CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN YMGYNGOREION ..... 13
  1. SYLWADAU AM YR YSGOL ..... 13
  2. SYLWADAU AR Y CYNNIG ..... 17
  3. EFFAITH AR DDYSGWYR ..... 23
  4. Y GYMRAEG ..... 27
  5. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) ..... 37
  6. GOBLYGIADAU CLUDIANT, TEITHIO A DIOGELWCH ..... 42
  7. Y GYMUNED A THEULUOEDD LLEOL ..... 49
  8. CAPASITI, DEMOGRAFFEG LLEOL A THREFNIANT DALGYLCHOEDD ..... 54
  9. GOBLYGIADAU ARIANNOL ..... 56
  10. SYLWADAU AR Y DDOGFENNAETH YMGYNGHORI A'R BROSES STATUDOL ..... 57
  11. OPSIYNAU AMGEN ..... 62
6. OPSIYNAU AMGEN ERAILL A GYNIGIWYD GAN YMGYNGHORAI ..... 68
7. ASESIAD PELLACH O'R CYNNIG A'R OPSIYNAU RHESYMOL ERAILL ..... 70
8. YSTYRIAETHAU PELLACH ..... 75
9. ARGYMHELLIAD ..... 77


## Atodiadau:

**Atodiad B**: Gwerthusiad Opsiynau

**Atodiad C:** Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

**Adroddiad Ymgynghori - Ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn**

## 1. TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD STATUDOL

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 14 Hydref 2025 , cynhaliodd Cyngor Gwynedd ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn. Dyma'r cynnig a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad:

*"Cau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen."*

Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gyflwyno eu sylwadau ar y cynnig uchod, fel y gallai'r Cyngor eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach ynghylch y camau nesaf.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026.

### (i) Y broses ymgynghori

Cyhoeddwyd y ddogfennaeth ymgynghori statudol ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) ("y Cod").

Roedd y ddogfennaeth ymgynghori a gyhoeddwyd yn cynnwys y canlynol:

- Dogfen Ymgynghori Statudol
- Pecyn Asesiadau Effaith: Roedd y pecyn hwn yn cynnwys asesiadau effaith cynhwysfawr, gan gynnwys yr effaith ar yr iaith Gymraeg, y gymuned leol, cydraddoldeb, trefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg, yn ogystal ag asesiad yn erbyn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Pecyn Cefndirol: Cynhwysai'r pecyn hwn ddogfennau cefnogol megis pecyn ystadegol, adroddiadau perthnasol a gyflwynwyd i'r Cabinet (gan gynnwys y papur cynnig dyddiedig 14 Hydref 2025), a throsolwg o'r trafodaethau lleol a gynhaliwyd rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025.
- Ffurflen Ymateb – fersiwn PDF + linc i'r fersiwn ar lein
- Dogfen Ymgynghori – fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc
- Holiadur – fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc.

Roedd y ddogfennaeth ar gael ar wefan y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a darparwyd copïau caled yn unol â cheisiadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai unigol.

Dosbarthwyd y ddogfennaeth i'r holl ymgynghorai perthnasol, yn unol â gofynion y Cod, drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys dolen at dudalen benodol ar wefan y Cyngor, sef www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolBaladeulyn.

Anfonwyd e-bost yn cynnwys linc at y ddogfennaeth ymgynghori at Ysgol Baladeulyn, Ysgol Talysarn, yn ogystal ag ysgolion eraill cyfagos, gan wneud cais i'r penaethiaid eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr y dysgwyr, holl aelodau o staff ac holl aelodau Corff Llywodraethol yr ysgolion.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor i'r ymgynghorai perthnasol ac i unrhyw unigolyn neu sefydliad arall a oedd yn dymuno ymateb, gyda'r cyfle i wneud hynny drwy lenwi ffurflen ymateb ar-lein, lenwi copi papur neu electroneg (PDF) o'r ffurflen ymateb a'i anfon at y Tîm Moderneiddio Addysg, neu drwy anfon e-bost neu lythyr at y Tîm Moderneiddio Addysg.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd sesiwn galw heibio yng nghanolfan Llys Llywelyn er mwyn rhoi cyfle i rieni a llywodraethwyr ofyn cwestiynau a thrafod yr ymgynghoriad ymhellach. Mynychodd 12 o bobl y sesiynau galw heibio. Cynhaliwyd hefyd sesiwn galw heibio yn yr ysgol i'r staff ble roedd cyfle iddynt drafod gyda swyddogion o'r Adran Adnoddau Dynol.

Yn ogystal, paratowyd dogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc, ynghyd â holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd i hwylusydd annibynnol gynnal sesiynau gyda dysgwyr Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn, er mwyn

casglu barn y dysgwyr. Mae'r crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau hyn wedi'i gynnwys yn Adran 5 isod.

Cyhoeddwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb wedi'u haddasu ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor hefyd. Felly, roedd cyfle i blant a phobl ifanc nad oeddent wedi mynychu sesiwn yn eu hysgol gyflwyno eu hymatebion i'r ymgynghoriad yn ogystal.

### (ii) Ymatebion i'r ymgynghoriad

Derbyniwyd cyfanswm o 30 o ymatebion ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys yr adborth a gasglwyd gan ddysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori.

| Ffurf | Nifer Ymatebion |
|---|---|
| Ffurflen ymateb ar lein | 25 |
| Ffurflen ymateb Word neu PDF | 0 |
| Ffurflen ymateb – copi caled | 1 |
| E-bost | 4 |
| Cyfanswm | 30 |

Yn unol â gofynion y Cod, mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi ei nodi'n llawn yn Adran 4 isod.

Mae crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny wedi'i gynnwys yn Adran 5 isod.

Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan y dysgwyr wedi'i gynnwys yn Adran 3 isod.

### (iii) Crynodeb o'r prif faterion a nodwyd yn yr ymatebion

Rhestrir isod y prif faterion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn Adran 5, isod.

**1. SYLWADAU AM YR YSGOL**
1.1 Ansawdd Addysg
1.2 Cefnogaeth i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
1.3 Ethos Gymraeg
1.4 Ymddygiad a Chynhwysiant
1.5 Profiadau tu hwnt i'r dosbarth
1.6 Datblygu Cyfrifoldeb a Hyder
1.7 Manteision ysgol fach (fel Ysgol Baladeulyn)
1.8 Cefnogaeth i deuluoedd

**2. SYLWADAU AR Y CYNNIG**
2.1 Gwrthwynebiadau i'r Cynnig
2.2 Galw i gadw'r ysgol ar agor
2.3 Barn o blaid y cynnig
2.4 Galw i ailystyried y cynnig
2.5 Sylwadau am statws a pherchnogaeth cyfreithiol yr ysgol

**3. EFFAITH AR DDYSGWYR**
3.1 Effaith emosiynol a lles
3.2 Effaith symud i ysgol fwy
3.3 Effaith ar addysg
3.4 Cyfleoedd Cymdeithasol

3.5 Colli buddion ysgol fach
3.6 Effaith ar ddysgwyr bregus

**4. Y GYMRAEG**
4.1 Sylwadau gadarnhaol am y ddarpariaeth Gymraeg bresennol
4.2 Pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar addysg Gymraeg
4.3 Effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned
4.4 Pryder wrth gymharu'r nifer o ddysgwyr sydd yn siarad Gymraeg yn Nhalysarn a Nantlle
4.5 Mesurau lliniaru i ddiogelu'r Gymraeg a lleihau effeithiau andwyol
4.6 Effaith Gadarnhaol y Cynnig ar y Gymraeg

**5. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**
5.1 Parhad staff a chymorth ADY
5.2 Effaith ysgol fwy ar blant sydd âg ADY
5.3 Lles, hyder a diogelwch dysgwyr ADY
5.4 Galw cynyddol am ddarpariaeth ADY

**6. GOBLYGIADAU CLUDIANT, TEITHIO A DIOGELWCH**
6.1 Cerdded, beicio ac annibyniaeth dysgwyr
6.2 Cludiant i Ysgol Talysarn
6.3 Pryderon ynghylch diogelwch teithio
6.4 Effaith teithio pellach ar lesiant y dysgwyr
6.5 Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus
6.6 Heriau i deuluoedd nad ydynt yn gyrru
6.7 Cludiant i blant dan 5 oed
6.8 Sylwadau cyffredinol am gludiant

**7. Y GYMUNED A THEULUOEDD LLEOL**
7.1 Cysylltiadau teuluol ac aml-genhedlaeth
7.2 Hunaniaeth Gymunedol a Balchder Lleol
7.3 Effaith y cynnig ar hyfywedd y gymuned
7.4 Bywyd cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol
7.5 Denu teuluoedd ifanc i'r pentref
7.6 Sylwadau ynglŷn a rôl yr ysgol yn y pentref
7.7 Effaith ar deuluoedd yn y gymuned

**8. CAPASITI, DEMOGRAFFI LLEOL A DALGYLCHOEDD**
8.1 Capasiti presennol ac effaith datblygiadau
8.2 Demograffeg lleol
8.3 Trefniant dalgylchoedd

**9. GOBLYGIADAU ARIANNOL**
9.1 Dadl yn erbyn y cynnig ar sail cost
9.2 Anghysondebau Cyllidol a Chost y Pen ar draws Ysgolion y Sir

**10. SYLWADAU AR Y DDOGFENNAETH YMGYNGHORI A'R BROSES STATUDOL**
10.1 Digonolrwydd asesiadau effaith yn gyffredinol
10.2 Asesiad Effaith ar y Gymuned
10.3 Asesiad Effaith ar y Gymraeg
10.4 Ymgysylltu a chyfathrebu gyda rhieni fel rhan o'r broses statudol
10.5 Asesiad Effaith ar  Gydraddoldeb

**11. OPSIYNAU AMGEN**
11.1 Cadw'r ysgol ar agor (status quo)
11.2 Hyrwyddo a chryfhau ysgolion bach
11.3 Ffederaleiddio gyda darpariaeth ADY
11.4 Rhannu arweinyddiaeth
11.5 Addasu'r cynnig er budd y Gymraeg
11.6 Darpariaeth arbenigol ADY
11.7 Opsiynau amgen eraill derbyniwyd

## 2. FFURFLEN YMATEB

Derbyniwyd ymatebion ar ffurf ffurflen ymateb gan 26 o ymatebwyr (25 trwy'r ffurflen ymateb ar-lein, 1 dros e-bost/post).

Mae'r atebion a dderbyniwyd i gwestiwn 1 (a) ac 1 (b) gan yr ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Noder fod crynodeb o'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn y ffurflenni ymateb wedi ei gynnwys  Adran 5 isod.

| **1 (a) Rwy'n ymateb fel:** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Rhiant/Gwarchodwr | 12 | 43% |
| Llywodraethwr Ysgol | 3 | 11% |
| Dysgwr | 1 | 4% |
| Staff | 0 | 0 |
| Arall | 12 | 43% |

| **1 (b) o'r ysgol ganlynol:** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ysgol Baladeulyn | 23 | 88% |
| Ysgol Talysarn | 1 | 4% |
| Arall | 1 | 4% |
| Dim ymateb | 1 | 4% |

Noder nad yw cyfanswm y niferoedd yn y tablau bob amser yn cyfateb i gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd, gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn wrth ymateb i'r cwestiynau perthnasol. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo ar sail 26 o ymatebwyr unigol. Gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn, gall cyfanswm y canrannau fod yn fwy na 100%.

## 3. YMGYNGHORI GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb/holiadur ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolBaladeulyn, fel y gallai plant a phobl ifanc oedd heb fynychu sesiwn yn eu hysgol, ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal.

**Sesiynau gyda dysgwyr**:

Cynhaliwyd sesiynau dynodedig gyda grŵp o ddysgwyr o Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn i sicrhau ein bod yn derbyn barn plant a phobl ifanc.

Trefnwyd bod hwylusydd yn mynychu Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle i'r plant ddatgan barn am y cynnig. Roedd pob sesiwn yn cynnwys esbonio'r cynnig a chwblhau holiadur.

Eglurwyd fod Cyngor Gwynedd yn ystyried cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn.

Eglurwyd fod y Cyngor eisiau gwybod sut yr oeddent yn teimlo am y cynnig ar gyfer Ysgol Baladeulyn, cyn iddynt benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Eglurwyd, os byddai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen efo'r cynnig, y byddai'n golygu:

- Y byddai Ysgol Baladeulyn yn cau ar 31 Rhagfyr 2026, ac
- Y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn ar 1 Ionawr 2027.

Gweler isod amserlen y sesiynau ymgynghori, rhestr yr ysgolion perthnasol a nifer yr ymatebwyr:

| | **Dyddiad** | **Cynhaliwyd y sesiwn gyda:** |
|---|---|---|
| **Ysgol Baladeulyn** | Dydd Iau, 15 Ionawr 2026 | Aelodau Cyngor Ysgol Baladeulyn (3 o ddysgwyr) |
| **Ysgol Talysarn** | Dydd Iau, 15 Ionawr 2026 | Dysgwyr Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Talysarn (22 o ddysgwyr) |

**Gweler isod grynodeb o ymatebion y dysgwyr**

NODER – Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o sylwadau'r plant a'r bobl ifanc.

| **Sut wyt ti'n teimlo am hyn?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Hapus** | **Ddim yn Sicr** | **Anhapus** |
| **Ysgol Baladeulyn** | 0 | 0 | 3 |
| **Ysgol Talysarn** | 13 | 10 | 0 |

| **Cwestiwn 1 – Sut wyt ti'n teimlo am hyn?** | |
|---|---|
| **Ysgol Baladeulyn** | • Dwi'n pryderus ac yn drist (x2).<br>• Dw i'n hoffi fy athrawes a ffrindiau, a dydw i ddim eisiau eu gadael nhw.<br>• Mae fy ysgol yn ddiogel ac yn arbennig i mi.<br>• Dwi'n teimlo'n dorcalonnus ac ofnus ynglŷn a'r sefyllfa. |
| **Ysgol Talysarn** | • Dw i'n teimlo'n hapus ac yn hyderus.<br>• Dw i eisiau'r plant gwneud ffrindiau efo ni, bysa hi'n braf cael ffrindiau newydd.<br>• Bydd gennym fwy o ffrindiau i fynd i'r ysgol uwchradd.<br>• Dw i'n teimlo hanner a hanner, ond mwy hapus na thrist.<br>• Dewisais yr opsiwn canol gan na fydd gan y plant bach hyder i gerdded i'r ysgol.<br>• Dw i eisiau i Ysgol Baladeulyn cau a'r plant dod i ysgol gwell (Ysgol Talysarn).<br>• Beth os nad ydi'r athrawon yn cael cyfle arall i gael swydd? |
| **Cwestiwn 2 – Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o'r cynnig yma?** | |
| **Ysgol Baladeulyn** | • Dw i eisiau i'r ysgol aros ar agor.<br>• Hoffwn cadw mewn cysylltiad efo hen ffrindiau (x2) a gwneud ffrindiau newydd.<br>• Dw i eisiau i bethau aros yr un peth.<br>• Fyswn i'n hoffi cael cymorth i wneud ffrindiau newydd ac ymweld a'r ysgol newydd. |

| | |
|---|---|
| | • Dw i eisiau fy athro/athrawes i fy helpu i fod yn hapus nid yn drist. |
| **Ysgol Talysarn** | • Dw i eisiau cyfarfod plant Ysgol Baladeulyn a chael diwrnod prawf cyn iddynt ddod i ysgol ni (x2).<br>• Hoffwn i'r plant dod i ysgol ni.<br>• Dw i eisiau dod i adnabod y plant a'r athrawon.<br>• Hoffwn i'r plant cael eu croesawu yn Ysgol Talysarn (x5).<br>• Hoffwn weld plant Ysgol Baladeulyn yn gwneud ffrindiau newydd (x2).<br>• Dw i eisiau fwy o 'chromebooks' i'r plant (x2).<br>• Dw i eisiau desg newydd.<br>• Dydw i ddim yn siŵr. |
| **Cwestiwn 3 – Beth sy'n dy boeni am hyn?** | |
| **Ysgol Baladeulyn** | • Ni fyddai'n gallu gweld fy ffrindiau dim mwy a byddaf yn methu cyfeillgarwch fy athrawon.<br>• Fyddwn ni methu cwrdd yn y parc oherwydd byddwn yn teithio o'r ysgol adref.<br>• Efallai wna i golli ychydig o fy ffrindiau agosaf a dydw i ddim eisiau mynd i ysgol newydd.<br>• Os na fydd pethau yr un fath yn Ysgol Talysarn. |
| **Ysgol Talysarn** | • Dim byd (x7).<br>• Dim yn poeni (x3).<br>• Does dim byd heb law bwlio yn fy mhoeni, does dim bwlio yma.<br>• Fydd angen prynu mwy o bethau.<br>• Fydd yna fwy o geir yma (x2).<br>• Dw i'n hapus am hyn.<br>• Mae'n drist i'r plant sydd yn symud.<br>• Dw i'n poeni am blant Ysgol Baladeulyn.<br>• Fyddwn ni ddim yn nabod y plant.<br>• Efallai y bydd y plant ddim yn licio ein ysgol ni.<br>• Efallai y bydd ysgol arall yn meddwl am gau.<br>• Efallai fydd na ddim le yn ein ysgol. |
| **Cwestiwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol?** | |
| **Ysgol Baladeulyn** | • Ffrindiau, staff a thegwch<br>• Fy ffrindiau ac athrawon, oherwydd mae nhw'n garedig gyda mi (x2).<br>• Teimlo'n ddiogel ac yn hapus.<br>• Cael gwersi hwyliog ac amser chwarae. |
| **Ysgol Talysarn** | • Gweld a chwarae efo fy ffrindiau (x12).<br>• Athrawon (x6).<br>• Gwneud gwaith a dysgu pethau newydd (x8).<br>• Digon o le yn y dosbarth.<br>• Derbyn addysg da.<br>• Cadw 'r plant yn ddiogel (x2).<br>• Cael digon o le i chwarae.<br>• Chwaraeon e.e. pêl-droed. |

Sylwadau eraill a dderbyniwyd ar lafar gan ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn ystod y sesiwn ymgynghori:

- Faint o blant sydd yn gwneud dosbarth maint addas?
- Mae gennym ni addysg dda rŵan.
- Beth os mae gan plentyn anhawster dysgu?
- Wrth chwarae gyda phlant hyn, mae rhai ifainc yn magu hyder.
- Yn yr ysgol yma, rydym yn chwarae gyda plant bach, da ni ddim ofn mynd gyda nhw.
- Mae'n cyfle da i ddysgu amynedd wrth chwarae gyda phlant bach.

- Mae adnoddau’r ysgol yn ddigon.
- Mae maint y dosbarth yn iawn.
- Dw i yn dod i adnabod plant yn fwy sydyn.
- Ti’n gallu cael sylw yr athrawes yn fwy sydyn mewn dosbarth llai.
- Mae’r plant i gyd yn cael yr un sylw.
- Mae gennym gornel tawel fedrwn ni fynd iddo os ydym yn drist.
- Mae pawb yn gallu cymryd rhan yn y cyngerdd Nadolig, ac mae hyn yn helpu ein hyder wrth berfformio.
- Mae’r Cyngor Ysgol wedi gwneud cyflwyniad i lywodraethwyr yr ysgol.
- Rydym yn mwynhau sesiynau ymarfer corff efo plant Ysgol Nebo.

**Casgliad/Crynodeb:**

Crynhoir isod y prif ymatebion a phryderon a fynegwyd gan y dysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori. Mae’r casgliadau’n adlewyrchu’r prif themâu a phryderon a fynegwyd gan y dysgwyr yn uniongyrchol yn y trafodaethau.

Mae dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn mynegi teimladau o bryder, tristwch ac ansicrwydd ynghylch y sefyllfa ac yn benodol am y posibilrwydd o orfod gadael eu hysgol bresennol, sy’n cael ei gweld ganddynt fel lle diogel ac arbennig. Mae colli ffrindiau ac athrawon, ynghyd â’r ansicrwydd ynghylch sut fydd pethau mewn ysgol newydd, yn peri pryder sylweddol. Mae dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cwestiynu faint o ddysgwyr sydd yn angenrheidiol i greu dosbarth maint addas, ac mae rhai yn mynegi pryder am blant gydag anghenion dysgu ychwanegol unigol.

Mae’r dysgwyr yn mynegi’n glir eu bod yn dymuno i’r ysgol aros ar agor, wrth dynnu sylw at gryfderau’r ysgol bresennol, megis dosbarthiadau llai sy’n galluogi mwy o sylw gan athrawon, adnoddau digonol, cyfleoedd i feithrin hyder drwy chwarae gyda phlant iau, a mannau tawel i gefnogi lles. Maent yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel y cyngerdd Nadolig, sesiynau ymarfer corff gyda dysgwyr ysgol arall, a gwaith y Cyngor Ysgol. Pe byddai’r ysgol yn cau, byddai’r dysgwyr yn awyddus i gadw mewn cysylltiad â’u ffrindiau presennol, derbyn cymorth i wneud ffrindiau newydd, a sicrhau bod eu hathrawon yn eu cefnogi i deimlo’n hapus. Y pethau sy’n bwysicaf iddynt yn yr ysgol yw’r ffrindiau, y staff, teimlo’n ddiogel ac yn hapus, ynghyd â mwynhau gwersi hwyliog ac amser chwarae.

O safbwynt dysgwyr Ysgol Talysarn, mynegwyd teimladau cadarnhaol ynghylch y cynnig, gyda llawer yn teimlo’n hapus ac yn hyderus, ac yn edrych ymlaen at y posibilrwydd o wneud ffrindiau newydd. Er bod rhai yn teimlo ychydig yn ansicr, mae’r mwyafrif yn nodi nad oes dim yn eu poeni. Mae rhai o’r dysgwyr wedi amlygu pryder ynghylch nifer uwch o geir a thraffig ger yr ysgol, ac os fydd digon o le i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn yr ysgol. Mae sawl dysgwr hefyd yn mynegi empathi tuag at blant Ysgol Baladeulyn ac yn poeni am sut y byddant yn ymdopi.

O ran eu dymuniadau, byddai dysgwyr Ysgol Talysarn yn awyddus i groesawu’r plant newydd, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd, diwrnodau prawf a chyfleoedd i ddod i’w hadnabod. Byddant yn dymuno gweld y dysgwyr yn setlo’n dda ac yn gwneud ffrindiau newydd. Gofynnodd rhai hefyd am fwy o adnoddau megis *chromebooks*.

Yn gryno, mae’r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau ymgynghori wedi tynnu sylw at bryderon dysgwyr Ysgol Baladeulyn ynghylch cau’r ysgol ac wedi pwysleisio pwysigrwydd cymuned a pherthyn. Prif negeseuon y trafodaethau yw poeni ynghylch colli’r ysgol, ofn symud i ysgol fwy, a gwerthfawrogiad dwfn o’r perthnasau sydd yn bodoli rhwng dysgwyr, eu ffrindiau ac athrawon.

4. **YMATEB ESTYN**

Yn unol â gofynion y Cod, nodir ymateb Estyn i'r ymgynghoriad statudol yn llawn isod:

**"Ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn o'r 31ain o Ragfyr 2026 gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn o Ionawr y 1af 2027 ymlaen".**

**Cyflwyniad**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

**Crynodeb/Casgliad**

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn o'r 31ain o Ragfyr, 2026, gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn. Mae'r wybodaeth sy'n rhan o'r ymgynghoriad yn glir a thrwyadl ac yn darparu gwybodaeth fanwl i'r cyhoedd. Ystyrir amrediad buddiol o opsiynau gan ymateb yn gytbwys i'r manteision ac anfanteision addysgol. Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r Cyngor wedi cynnig rhesymeg glir ar gyfer yr ymgynghoriad. Maent yn rhoi gwybodaeth glir ynglŷn â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gweledig. Mae'r cynnig yn unol â chyflawni nod strategol presennol y Cyngor. Mae hyn wedi ei seilio ar eu gweledigaeth ar gyfer sicrhau:

1. Addysg o'r safon uchaf bosibl fydd yn darparu'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.
2. Cynnal Strategaeth Iaith Gymraeg Gwynedd
3. Gwireddu amcanion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Mae'r Cyngor wedi darparu disgrifiad clir a manwl o'r cynnig. Maent wedi cyflwyno gwybodaeth gefndirol fuddiol a chynnwys amserlen ar gyfer cwblhau gweithdrefnau statudol.

Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir prif fanteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig wrth gymharu gyda'r sefyllfa bresennol. Maent yn darparu amlinelliad manwl o'r sefyllfa bresennol yn ardal Ysgol Baladeulyn, gan osod cyd-destun daearyddol yr ardal o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle. Rhoddir sylw manwl i gynnal darpariaeth gadarn ar gyfer y Gymraeg yn yr ardal, yn unol â pholisïau'r Cyngor.

Mae'r cynnig yn darparu gwybodaeth ynglŷn â niferoedd sy'n mynychu ysgolion yr ardal ar hyn o bryd. Mae'r niferoedd cyfredol yn isel yn Ysgol Baladeulyn gyda dim ond 6 o ddisgyblion llawn amser a 2 rhan amser ym Medi 2025. Un dosbarth sydd yn yr ysgol. Dim ond dau ddisgybl sydd yn byw yn nalgylch yr ysgol. Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith ariannol y cynnig, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r ysgol yn unol â chanllawiau'r Cyngor. Darperir gwybodaeth ynglŷn ag Ysgol Talysarn, sydd yn rhan o'r cynnig, a nodir fod yr ysgol eisoes wedi ffederaleiddio

gydag Ysgol Brynaerau. Yn ogystal, mae'r cynnig yn darparu gwybodaeth fuddiol am ysgolion eraill cyfagos er mwyn ystyried yr effaith bosibl arnynt. Rhoddir sylw i'r diffiniadau o ysgolion y Cyngor, gan nodi fod Ysgolion Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn ysgolion 'Cymunedol,' cyfrwng Cymraeg.

Rhoddir amlinelliad o gryfderau a gwendidau'r sefyllfa bresennol, gan roi arweiniad clir mai barn y Cyngor yw bod yr anfanteision yn gorbwyso'r manteision. Mae'r cynnig yn amlinellu saith opsiwn gwahanol dderbyniodd ystyriaeth fel rhan o'r broses. Mae hyn yn talu sylw dyledus i'r cod trefniadaeth ysgolion 2018 wrth ystyried dyfodol ysgolion gwledig. Mae'r cynnig yn cynnwys manylion o'r elfennau eraill gafodd eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys maint dosbarthiadau a llefydd gweigion, effaith ar arweinyddiaeth a staffio, adnoddau ariannol ynghyd a ffactorau daearyddol. Yn ogystal, rhoddir sylw i effaith ar y gymuned a'r iaith Gymraeg.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r saith opsiwn, sef:

- cynnal y sefyllfa bresennol
- ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn
- ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn
- cau ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)
- uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn
- ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn
- cynnwys uned iaith yn Ysgol Baladeulyn.

Nodir manteision ac anfanteision yr opsiynau. Rhoddir ystyriaeth i effaith ariannol y cynnig, ynghyd â'r cyfleoedd buddiol i ddisgyblion dderbyn addysg mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. Ystyrir elfennau fel costau diswyddo a thrafnidiaeth mewn modd cytbwys a theg. Nodir fod cyfartaledd cost y dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn £14, 953, o'i gymharu â chyfartaledd yr awdurdod o £5,780. Nodir hefyd fod Ysgol Baladeulyn wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth staffio o £56,781 yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26. Yn ogystal, mae'r cynnig yn ystyried effaith y newid ar arweinyddiaeth Ysgol Talysarn a sicrhau amser digyswllt i'r pennaeth.

Ystyrir nad yw'r newidiadau hyn yn debygol o gael unrhyw effaith ar y Gymraeg gan fod yr ysgolion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynnig yn talu sylw i amrediad eang o ffactorau, er enghraifft wrth graffu ar ragfynegiadau niferoedd disgyblion, ynghyd â chostau cynnal a chadw'r adeiladau.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn dysgu. Maent yn cyfeirio at wybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn, yn ystod 2017, lle nodwyd fod pob agwedd yn Ysgol Baladeulyn yn dda. Yn ysgol Talysarn, cafwyd y farn 'rhagorol' ar gyfer lles, a gofal cymorth ac arweiniad, ynghyd ag arweinyddiaeth a rheolaeth. Arolygwyd Ysgol Talysarn yn ystod mis Tachwedd 2025 ond nid yw'r adroddiad wedi ei chyhoeddi cyn y cynnig a'r ymateb yma.

Mae'r ymgynghoriad wedi ystyried effaith y cynnig mewn adrannau ar wahân, fel safonau a chynnydd, llesiant ac agweddau at ddysgu, profiadau addysgu a dysgu, gofal cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'n ystyried effaith tebygol y cynnig ar sicrhau fod cwricwlwm llawn a chytbwys yn cael ei gyflwyno.

Mae'r cynnig yn craffu'n fanwl ar yr effaith posibl ar safon y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr. Rhoddir sylw cytbwys i'r effaith ar safonau a chynnydd disgyblion. Nodir fod effaith y cynnig ar brofiadau dysgu'r disgyblion yn debygol o fod yn gadarnhaol gan y bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o'u cyfoedion, gan elwa ar y cyfleoedd ehangach i gydweithio. Mae'r cynnig yn awgrymu y byddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n agored i niwed a disgyblion

sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn debygol o fod yn gadarnhaol o ganlyniad i fynychu ysgol gyda lefelau staffio uwch.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i amrediad llawn o ffactorau wrth ystyried cau ysgolion a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

**Crynodeb o'r Materion a Godwyd gan Estyn ac Ymateb y Cyngor**

Wrth ystyried ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Talysarn, mae'r Cyngor yn nodi bod Estyn wedi cadarnhau bod y cynnig yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ac wedi nodi bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Mae'r Cyngor yn croesawu'r casgliad hwn ac yn nodi bod cynnal a gwella profiad addysgol dysgwyr wedi bod yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu'r cynnig.

Mae Estyn wedi amlygu'r prif heriau cynaliadwyedd sylweddol sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys niferoedd isel iawn o ddysgwyr, canran uchel o leoedd gwag, un dosbarth gydag ystod oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel. Mae'r Cyngor yn nodi bod yr holl ffactorau hyn wedi'u hystyried yn fanwl fel rhan o'r broses gwerthusiad opsiynau, ynghyd â'r effaith addysgol ac ariannol gysylltiedig. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn nodi fod capasiti digonol ac addas yn Ysgol Talysarn i dderbyn dysgwyr Ysgol Baladeulyn.

Mae Estyn hefyd wedi cydnabod statws Ysgol Baladeulyn fel ysgol wledig, ac wedi nodi bod y cynnig yn ymddangos yn un sy'n mynd i'r afael â'r gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y cynnig wedi'i asesu'n fanwl yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ac mai dim ond ar ôl ystyried pob opsiwn amgen rhesymol, a dod i'r casgliad nad oedd yr un ohonynt yn mynd i'r afael â'r prif heriau, y daethpwyd i'r farn bod y cynnig yn briodol ac yn gymesur. Yn ogystal, mae Estyn yn nodi bod y Cyngor yn rhoi sylw i effaith ar y gymuned a'r iaith Gymraeg.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod Estyn wedi cydnabod bod y cynnig yn craffu'n fanwl ar yr effaith posibl ar safon y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr gan roi sylw i'r effaith ar safonau a chynnydd y dysgwyr. O ganlyniad, mae'r Cyngor o'r farn byddai effaith y cynnig ar brofiadau dysgu'r disgyblion yn debygol o fod yn gadarnhaol gan y bydd y dysgwyr yn cael eu haddysgu gyda mwy o'u cyfoedion, gan elwa ar y cyfleoedd ehangach i gydweithio.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod Estyn wedi cydnabod bod y cynnig yn rhoi ystyriaeth i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a bod yn cynnig yn awgrymu y byddai'r effaith yn debygol o fod yn gadarnhaol o ganlyniad i fynychu ysgol gyda lefelau staffio uwch.

Wrth ystyried y materion a godwyd gan Estyn, mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i amrediad llawn o ffactorau wrth ystyried cau Ysgol Baladeulyn a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn eu cyfanrwydd. Er bod effeithiau lleol, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn bod y cynnig yn briodol, yn gymesur, ac yn cydymffurfio â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, er budd gorau dysgwyr yr ardal yn y tymor canolig a'r tymor hir.

## 5. CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN YMGYNGOREION

Darperir isod grynodeb o'r prif faterion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymatebion yr awdurdod i'r materion hynny.

### 1. SYLWADAU AM YR YSGOL

### 1.1 Ansawdd Addysg

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Sylwadau</th><th>Ymateb Cyngor Gwynedd</th></tr>
<tr><td>1.1.1</td><td>"Mae ansawdd addysg yr ysgol wedi bod yn arbennig." "Mae'r teimlad o gymuned a'r ffaith fod pob plentyn yn cael eu derbyn yn hanfodol bwysig."</td><td rowspan="5">Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe'i diweddarwyd yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r asesiad yn cydnabod bod perfformiad presennol Ysgol Baladeulyn wedi'i werthuso fel 'Da' gan Arolygiad Estyn, a bod y ddarpariaeth bresennol yn cynnig profiad addysgol cadarnhaol i'r dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.<br><br>Yn yr un cyd-destun, mae'r Cyngor o'r farn fod y ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Talysarn, fel yr ysgol amgen arfaethedig, yn cynnwys dosbarthiadau o faint mwy addas gyda ystod oed llai, a all gynnig manteision i rai dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o gyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu gyda chyfoedion o'r un oed a hwyluso cynllunio addysgu mwy penodol i gamau datblygiadol, gan gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant a datblygiad personol rhai plant.<br><br>Fodd bynnag, nodir bod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i seilio ar dystiolaeth ehangach sy'n ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys patrymau dewis yn y dalgylch fod y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill.<br><br>Ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu'r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai</td></tr>
<tr><td>1.1.2</td><td>"Fe wnaethom ddewis cadw ein plant yn Ysgol Baladeulyn oherwydd safon yr addysg y maent yn ei chael, eu ffrindiau, a'r ffaith mai'u neiniau a'u teidiau yn y pentref sy'n darparu gofal plant."</td></tr>
<tr><td>1.1.3</td><td>Nodir bod y plant yn ffynnu ac yn hapus yn yr ysgol, ac yn derbyn profiadau gwerthfawr iawn.</td></tr>
<tr><td>1.1.4</td><td>"Mae Ysgol Baladeulyn yn cynnig amgylchedd bach a meithringar lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hadnabod ac yn cael eu cefnogi."</td></tr>
<tr><td>1.1.5</td><td>"Mae'r addysg yn rhagorol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r cwricwlwm yn gwerthfawrogi ein hunaniaeth genedlaethol a'n treftadaeth."</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Nodir bod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i'r ddarpariaeth bresennol ac yn galluogi i rai dysgwyr gael eu haddysgu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |

**1.2 Cefnogaeth i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 1.2.1 | *"Roedd gan fy mab anawsterau dysgu ac roedd yr ysgol o gymorth mawr ac fe godasant ei hyder." "Nid wyf yn credu y byddai wedi cael y math hwnnw o gefnogaeth mewn ysgol fwy."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio'r gefnogaeth gynhwysol a ddarperir i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys sylw personol ac ymateb hyblyg i anghenion emosiynol rhai dysgwyr.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, a chafodd hwn ei gynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, cafodd yr asesiad ei ddiweddaru. Mae'r asesiad diwygiedig yn parhau i gydnabod bod dyletswydd statudol ar bob ysgol i ddarparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr ag ADY, ac yn nodi bod ysgolion mwy yn aml gyda ddarpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy cadarn, a mynediad at ystod ehangach o ymyriadau a chymorth arbenigol. Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a'r dystiolaeth berthnasol, daw'r asesiad i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Talysarn o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, gan gynnwys o safbwynt cefnogi dysgwyr ag ADY.<br><br>O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o arwain at effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod. |
| 1.2.2 | Mae Ysgol Baladeulyn yn darparu amgylchedd bach, tawel a rhagweladwy, gyda pherthynas agos rhwng staff a disgyblion - rhywbeth sy'n hollbwysig i les emosiynol a dysgu fy mhlentyn, sydd gydag ADY. | |

**1.3 Ethos Gymraeg**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 1.3.1 | "Ysgol fach cymraeg, mewn ardal cymraeg sydd dal ar agor, does dim ysgol fel ysgol Baladeulyn!" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 1.3.2 | "Mae ysgol Baladeulyn wedi cael gwobr aur am ei gwaith gyda'r Siarter Iaith." "Mae'r brifathrawes bresennol Mrs Myrddin wedi gweithio'n ddi-flino ar hyn." "Dyna gryfder ysgol fach gyda staff anhygoel." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am y ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Baladeulyn. |

**1.4 Ymddygiad a Chynhwysiant**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 1.4.1 | "Mewn ysgol fel Baladeulyn dydi bwlio ddim yn broblem." "Mae plant yn dysgu i fod yn gynhwysol." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn. |

**1.5 Profiadau tu hwnt i'r dosbarth**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 1.5.1 | Pwysleisir bod yr ysgol yn cynnal sesiynau rheolaidd y tu allan yn y gymuned e.e yn y goedwig ac wrth y llyn. | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn. |

**1.6 Datblygu Cyfrifoldeb a Hyder**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 1.6.1 | "Rwyf wedi crafu pen dros y sylw yma... wrth adlewyrchu ar yr holl brofiadau arbennig ac amrywiol gaiff plant Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd." "y cyfrifoldebau maent yn anochel yn gorfod eu hysgwyddo fel dysgwyr uchelgeisiol ac abl... ac unigolion iach ac hyderus." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r pryderon a fynegir ynghylch y defnydd o'r term 'profiadau teg', ac yn cydnabod bod dysgwyr Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd yn elwa ar brofiadau gwerthfawr ac amrywiol o fewn eu hysgol. Nid yw'r datganiad yn ceisio tanseilio'r darpariaeth bresennol, ond yn adlewyrchu'r bwriad i sicrhau bod pob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir, yn cael mynediad at gyfleoedd addysg gyson. Ystyrir y byddai'r cynnig yn gallu cynnal a datblygu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru drwy ddarparu adnoddau, staffio a grwpiau cyfoedion ehangach, gan gefnogi datblygiad dysgwyr fel unigolion hyderus, dinasyddion egwyddorol, cyfranwyr mentrus a dysgwyr uchelgeisiol. |

| | | |
|---|---|---|
| 1.6.2 | Mae Ysgol Baladeulyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr bregus a naturiol swil fagu hyder, datblygu sgiliau bywyd, ac ymgymryd a dyletswyddau ysgol. | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau gadarnhaol hyn am y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn. |

**1.7 Manteision ysgol fach (fel Ysgol Baladeulyn)**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 1.7.1 | "Yn groes i awgrym sawl un fod hi'n anfantais bod mewn ysgol fechan dwi'n anghytuno." "Mae cyd weithio gwych wedi bod rhwng ysgolion Nebo a Nantlle ers blynyddoedd." "Mae plant yn cael mwy o gyfle i fod yn rhan o bob gwasanaeth nadolig, timau chwaraeon a phob trip a chyfle." "Does dim dewis a dethol mae pawb yn cael y fraint o fod yn rhan o bob dim." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â chryfderau ysgolion bach a'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cafodd effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safonau addysg ei hasesu, gan gynnwys ystyriaeth benodol o lesiant, profiad cymdeithasol a pherthyn. Er bod yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg wedi'i ddiweddaru yn dilyn ystyried y sylwadau hyn, nid yw'r ystyriaethau ychwanegol wedi arwain at newid i gasgliad yr asesiad. Dengys yr asesiad o hyd y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i'r ddarpariaeth bresennol, ac yn gallu cynnig cyfleoedd ehangach i ddysgwyr o ran grwpiau oed berthnasol, rhyngweithio cymdeithasol ac ehangder profiadau dysgu.<br><br>Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi bod Ysgol Baladeulyn yn wynebu heriau sylweddol a pharhaus sydd wedi rhoi sail i'r adolygiad o'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd dysgwyr isel dros gyfnod estynedig, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys y dystiolaeth fod patrymau dewis yn y dalgylch wedi arwain at y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill, a bod cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol.<br>O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch gwerth addysgol ysgol fach wledig fel Ysgol Baladeulyn, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, fod y trefniadau presennol yn cyflwyno heriau o ran sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. Yn yr un modd, pe gweithredir y cynnig, nodir bod y ddarpariaeth amgen yn Ysgol Talysarn yn gallu cynnig |
| 1.7.2 | Mae cynhaliaeth mewn ysgol fach wledig yn amhrisiadwy, ble mae'r holl ddysgwyr yn adnabod ei gilydd, yn cael sylw unigol, ac nad ydynt yn cael eu colli mewn dosbarthiadau mawr. | |
| 1.7.3 | "Mae'r ymgynghoriad yn pwysleisio ar beth fyddai'r dysgwyr yn ennill o fod yn ymuno a ysgol mwy ond beth am yr hyn fyddai'r dysgwyr yn ei golli?" "Yn benodol dysgwyr bregus, a'i rhieni wedi dewis ysgol fach Baladeulyn iddynt." "Mae'r cynnig yn bendant am gael fwy o effaith negyddol ar ddysgwyr bregus yr ysgol." | |
| 1.7.4 | "Ychydig o engreifftiau yw'r sylw ac amser mae athrawon a chymorthyddion Baladeulyn yn gallu ei roi i'r dysgwyr" "cyfrifoldebau megis rolau ar y Cyngor Ysgol, swyddi amser chwarae ayyb a rhannau mawr i'w chwarae mewn cyflwyniadau cyhoeddus" "nid oes unrhyw blentyn yn cael ei eithro a bob un wedi magu balchder a hyder yn ei hunain o ganlyniad i hyn." | |
| 1.7.5 | "mae ysgol llai yn rhoi cyfle gwych i'r disgyblion yma gael mwy o sylw ac i ffynnu." "Mae ysgolion bach yn berffaith ar gyfer y disgyblion yma ac nid yw pawb yn gweithio'n dda mewn ysgolion mawr." | |

| | | |
|---|---|---|
| | | trefniant addysgol sy'n parhau i gefnogi ansawdd a safonau addysg addas i ddysgwyr y dalgylch. |

**1.8 Cefnogaeth i deuluoedd**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 1.8.1 | *"Roedden nhw hefyd yn cefnogi'r plant drwy gyfnodau teuluol anodd."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am ddarpariaeth Ysgol Baladeulyn. |
| 1.8.2 | *"Nid yw Ysgol Baladeulyn erioed wedi methu ei disgyblion waeth beth fo'r broblem." "Maent yn cefnogi'r teulu yn hytrach na meddwl am rifau – maent yn malio, yn wahanol i'r rhan fwyaf o ysgolion."* | |

**2. SYLWADAU AR Y CYNNIG**

**2.1 Gwrthwynebiadau i'r Cynnig**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 2.1.1 | "Mae Corff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn yn anghytuno'n gryf a'r datganiad i gau Ysgol Baladeulyn ar y 31ain o Ragfyr 2026." | Mae'r Cyngor yn nodi'r gwrthwynebiadau a'r siom sylweddol a fynegwyd mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn. Mynegwyd gwrthwynebiad clir i'r cynnig, gyda phwyslais ar werth yr ysgol, a'r farn y dylai'r ysgol barhau ar agor.<br><br>Ffefrir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn am ei fod yn ymateb yn uniongyrchol i'r heriau sylweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu, sef:<br>• niferoedd isel iawn o ddysgwyr, sydd wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf;<br>• canran uchel iawn o lefydd gwag, sy'n tanseilio cynaliadwyedd y ddarpariaeth;<br>• dosbarthiadau bychan gydag amrediad oedran eang, sy'n cyflwyno heriau o ran trefniadaeth ac ansawdd profiadau addysgol;<br>• rhagamcanion niferoedd isel i'r dyfodol, nad ydynt yn awgrymu gwelliant sylweddol yn y sefyllfa;<br>• patrwm clir o ddewis gan ddysgwyr y dalgylch, gyda'r mwyafrif eisoes yn mynychu ysgolion eraill; |
| 2.1.2 | Mynegir gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn. | |
| 2.1.3 | Mynegir gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar ddiwedd 2026 a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn o 1af Ionawr 2027. | |
| 2.1.4 | "Rwy'n anghytuno gyda'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn" | |
| 2.1.5 | Peidiwch a chau ein ysgol, dyma ysgol fy mhlentyn a dyma ein pentref lleol lle hoffem aros. | |
| 2.1.6 | "Rwyf yn anghytuno gyda'r datganiad hwn gan fy mod wedi mynychu'r ysgol ers yr oeddwn yn dair hyd at unarddeg." | |
| 2.1.7 | Mynegir gwrthwynebiad pendant i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo'r ddarpariaeth addysg i Ysgol Talysarn. | |
| 2.1.8 | "Rwy'n anghytuno â'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a'n ffafrio unrhyw o'r opsiynau amgen yn fwy." | |

<table>
<tr><td>2.1.9</td><td>“Nid oes unrhyw ffordd y gall cau ysgol y pentref fod yn beth cadarnhaol.”</td><td rowspan="7"><ul><li>cost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol, sy’n codi pryderon am gynaliadwyedd ariannol hirdymor.</li></ul>Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno’r adroddiad ar yr ymgynghoriad i’r Cabinet er mwyn crynhoi’r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i’r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p’run ai a ddylid bwrw ymlaen â’r cynnig hwn ai peidio. Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod yr holl sylwadau a dderbyniwyd wedi’u hystyried yn llawn wrth lunio’r adroddiad ymgynghori yma (Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori), ac wedi llywio’r asesiadau pellach a’r gwerthusiad o’r cynnig a’r opsiynau amgen rhesymol.<br>Os yw’r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig<br>Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu".<br>Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi’n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad.</td></tr>
<tr><td>2.1.10</td><td>“Dim cau ysgol bach da”</td></tr>
<tr><td>2.1.11</td><td>“Credu fod cau ysgol baladeulyn yn grisis an fafriol i’r disgyblion a staff.” “Ysgol fach syn rhoi sylw unigol i ddisgyblion syn delio gyda’g anableddau dysgu, 1-1 ac fafriaeth.” “Bysa cau yr ysgol hon yn ddewis hollol hollol wyrion!”</td></tr>
<tr><td>2.1.12</td><td>“Sioc enfawr ir pentre, hollol boncyrs o syniad i gau ysgol mor ffantastig!”</td></tr>
<tr><td>2.1.13</td><td>“Mae’r ysgol yn un hen iawn ac mi fusain bechod os sain cau.”</td></tr>
<tr><td>2.1.14</td><td>“Rwy’n gwrthwynebu’n gryf ac yn anghytuno â’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, Nantlle.”</td></tr>
<tr><td>2.1.15</td><td>Mynegir gwrthwynebiad gryf i’r cynnig i gau’r ysgol ar ddiwedd 2026, ar sail profiad personol ynghyd ag anghenion penodol eu plant.</td></tr>
</table>

**2.2 Galw i gadw’r ysgol ar agor**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 2.2.1 | *“Ni fyddai’n broblem pe bai’r ysgol fach yn aros ar agor.” “Na, bydd yn effeithio ar y plant beth bynnag.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Baladeulyn. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2.2 | *"Cadwch Baladeulyn ar agor gan fod y plant bob amser yn siarad Cymraeg rhugl." "Na, beth bynnag, bydd yn cael effaith negyddol ar y plant."* | Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig yn nodi bod canran uchel o blant dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-ddalgylch (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn, sy'n awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol ehangach eisoes yn bodoli. Ar yr un pryd, daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |
| 2.2.3 | "Angen cadw yr ysgol ar agor erlles y disgyblion i gyd!"<br>"Angen cadw yr ysgol ar agor!!" | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei wynebu. Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr yn Ionawr 2026. O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:<br><br>• Niferoedd isel o ddysgwyr - Yn Ionawr 2025, roedd 13 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 a 0 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn. Mae'r niferoedd wedi gostwng ymhellach ers hynny gyda 6 dysgwr llawn amser a 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr yn Ionawr 2026.<br>• Canran uchel o lefydd gweigion – Gyda 6 o ddysgwyr (Derbyn i Flwyddyn 6) ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 55, mae 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 89% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin - Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Baladeulyn 54 (87%) o lefydd gweigion.<br>• Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) mae un dosbarth sy'n cynnwys pob dysgwr yn yr ysgol – sef 6 dysgwr Derbyn-Bl.6 (Derbyn, Bl.1 a 2, a Bl. 4 a 5) ynghyd â 2 ddysgwr Meithrin. O fewn y dosbarth hwn, caiff grwpiau gwahanol eu ffurfio |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar wahanol adegau o'r dydd, gyda'r cymorthyddion yn arwain y gweithgareddau (gyda'r dysgwyr ieuengaf). Mae hyn felly yn golygu mae'r amrediad oedran yn y dosbarth cyfan yn ymestyn hyd at 8 mlynedd.<br>• Rhagamcanion niferoedd – Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y dair mlynedd nesaf, gyda rhagamcan o 7 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.<br>• Dysgwyr y dalgylch –Yn ôl gwybodaeth Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) Ionawr 2026, dim ond 25% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 75% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.<br>• Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd – Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £74,446.<br>• Cyfartaledd cost fesul dysgwr – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £25,123, o gymharu â'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod yn £5,998.<br><br>Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno'r adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p'run ai a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig hwn ai peidio.<br><br>Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig<br><br>Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu". |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad. |

**2.3 Barn o blaid y cynnig**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 2.3.1 | Mynegir cefnogaeth i'r cynnig i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Talysarn, ble mae nifer uwch o blant. | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau. |
| 2.3.2 | "credaf bydd y cynnig yn ei ffurf presennol yn cael effaith gadarnhaol." "Dydi cefnogi a chynnal sefyllfaoedd fel sydd ym Maladeulun ddim yn gwneud unrhyw les i'r Gymraeg." | |
| 2.3.3 | "Cefnogaf y cynnig yn gryf." "Mae parhau i gynnal y ddwy ysgol tra bod eu niferoedd cyn ised, eu llefydd gweigion cymaint â'r gost y pen cyn uched mewn hinsawdd ariannol heriol yn annheg, afresymol ac anfoesol." | |
| 2.3.4 | "maent yn dod i gyswllt ac yn ymwneud â nifer o blant o ystod o gefndiroedd… ac yn eu paratoi yn well i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas honno." | |
| 2.3.5 | "dychmygaf fod symud o ysgol gynradd o lai na 20 i ysgol uwchradd 20 gwaith y maint yn wirioneddol frawychus." | |

**2.4 Galw i ailystyried y cynnig**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 2.4.1 | Galwir ar y Cyngor i ailystyried y cynnig a chydweithio'n agos â'r gymuned leol er mwyn sicrhau ateb sy'n diogelu darpariaeth addysg gynradd yn ardal Baladeulyn. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw gan gydnabod pwysigrwydd darpariaeth addysg gynradd yn ardal Baladeulyn ac yn gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd gan drigolion. Gweler Adran 7 ac Adran 8 o'r ddogfen ymgynghori, lle amlinellir yr opsiynau a gafodd eu hystyried yn ystod y broses. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod Gwerthusiad Opsiynau manylach ar gael yn Atodiad B, sy'n darparu dadansoddiad pellach o gryfderau a gwendidau pob opsiwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno'r adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p'run ai a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ai peidio.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn llawn wrth lunio'r adroddiad ymgynghori yma (Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori), ac wedi llywio'r asesiadau pellach a'r gwerthusiad o'r cynnig a'r opsiynau amgen rhesymol.<br><br>Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.<br><br>Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu".<br><br>Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad. |

**2.5 Sylwadau am statws a pherchnogaeth cyfreithiol yr ysgol**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 2.5.1 | "Dosbarthwyd Ysgol Baladeulyn o dan Ddeddf Addysg 1944 fel 'ysgol wirfoddol'... dylai Cyngor Gwynedd ymgynghori â Llywodraeth Cymru i gael cyllid ychwanegol." | Mae Cyngor Gwynedd yn cadarnhau mai ysgol gymunedol yw Ysgol Baladeulyn, nid ysgol gwirfoddol. |
| 2.5.2 | "Gallai'r gweithred ymddiried (declaration of trust) hon fod yn Amgueddfa Penmaenmawr (sydd ar gau ar hyn o bryd) neu yn Archifau Cyngor Conwy. Gallai tor-cytundeb gan 'Kinmel Estates' fod â goblygiadau cyfreithiol i Gyngor Gwynedd." | Nodir bod trosglwyddiad teitl llawn yr eiddo i Gyngor Sir Caernarfon ym 1972. Nid oes cyfeiriad at unrhyw ymddiriedolaeth yng ngweithredoedd y safle gan Cyngor Gwynedd. |

## 3. EFFAITH AR DDYSGWYR

### 3.1 Effaith emosiynol a lles

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Sylwadau</th><th>Ymateb Cyngor Gwynedd</th></tr>
<tr><td>3.1.1</td><td>“Mae cau’r ysgol yn peri risg o darfu ar les emosiynol y disgyblion, eu hymdeimlad o berthyn, a pharhad eu dysgu.”</td><td rowspan="2">Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a fynegwyd ynghylch y posibilrwydd y gallai cau’r ysgol gael effaith andwyol ar lesiant a phrofiad dysgwyr presennol. Mae’r materion hyn wedi’u hystyried wrth adolygu’r Asesiad Effaith Llesiant a’r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, sy’n ystyried effaith bosibl newid ysgol ar ddysgwyr unigol, yn ogystal â’r mesurau lliniaru priodol.<br><br>Pe gweithredir y cynnig, rhagwelir y byddai’r cynnig yn sicrhau fod dysgwyr yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr.<br><br>Er bod yr asesiadau effaith yn dod i’r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen yn cyfateb fan leiaf i’r ddarpariaeth bresennol, maent hefyd yn pwysleisio’r angen am drefniadau pontio a chefnogaeth briodol i leihau unrhyw effaith andwyol ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu.</td></tr>
<tr><td>3.1.2</td><td>“Byddai’n peri gofid mawr i’n plant orfod symud i ffwrdd oddi wrth eu ffrindiau nawr, ar ben symud i ysgol newydd mewn pentref anghyfarwydd.”</td></tr>
</table>

### 3.2 Effaith symud i ysgol fwy

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 3.2.1 | “Yn gyffredinol credaf fod profiad fy mhlant o ‘ysgol fawr’ yn un mwy cadarnhaol na phrofiad eu cyfoedion mewn ‘ysgolion bach’.” | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.<br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe’i cynhwyswyd fel rhan o’r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cafodd yr Asesiad Effaith ei ddiweddaru i adlewyrchu’r materion a godwyd, gan gynnwys y safbwyntiau ynghylch addysg oedran gymysg, datblygiad cymdeithasol a llesiant disgyblion mewn ysgolion bach. Fodd bynnag, nid yw’r diweddariad hwn wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dengys yr Asesiad Effaith y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Talysarn yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Mae'r asesiad yn nodi bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Talysarn yn cyfateb, fan lleiaf, i'r safon a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, ac y gallai ysgol fwy gynnig cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr o ran grwpiau oed-berthnasol, rhyngweithio cymdeithasol ehangach, ac ehangder profiadau addysgu a dysgu. |
| 3.2.2 | *"Gall plant ymneilltuo mewn ysgol fwy gan na fyddai'r staff yn gallu eu cefnogi yn yr un modd, a gallai hynny arwain at fwy o broblemau posibl i'r plentyn."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch yr effaith bosibl o ail-leoli dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn i ysgol fwy, yn enwedig o safbwynt llesiant emosiynol, addasu cymdeithasol a dysgwyr bregus.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ystyried y pryderon wrth gynnal a diweddaru'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant, sy'n ystyried barn yr ymatebwyr ynghylch pwysigrwydd cefnogaeth bersonol, dosbarthiadau bach ac amgylchedd cynhwysol i lesiant rhai dysgwyr.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi bod Ysgol Talysarn, fel Ysgol Baladeulyn, yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisïau i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio briodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr unigol drwy'r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyfarwyddo â'r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr, a darparu cefnogaeth dargedig lle bo angen.<br><br>Er bod yr asesiadau effaith wedi'u diweddaru i gofnodi ac ystyried y pryderon hyn, nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gyfwerth, fan leiaf, â'r ddarpariaeth bresennol o ran ansawdd a safonau addysg. |
| 3.2.3 | *"Gallai gael mwy o effaith ar rai grwpiau. Gallai achosi i'r plentyn dynnu'n ôl gan fod ysgol fwy yn gallu bod yn llethol. Gallai rhai problemau fynd heb eu sylwi."* | |
| 3.2.4 | "mae dosbarth un flwyddyn yn golygu fod holl gynnwys gwersi yn berthnasol iddynt." | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant yn nodi'r angen i sicrhau trefniadau pontio briodol a chymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr unigol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |

**3.3 Effaith ar addysg**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 3.3.1 | "Mae 5 ysgol arall o fewn 15 munud o daith car i Ysgol Baladeulun." "Bydd y profiad yn debyg iawn." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |

**3.4 Cyfleoedd Cymdeithasol**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 3.4.1 | "mae ganddynt fwy o gyfoedion a dewis ehangach o ffrindiau o'u hoed." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |

**3.5 Colli buddion ysgol fach**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 3.5.1 | "Mae'r ymgynghoriad yn pwysleisio ar beth fyddai'r dysgwyr yn ennill o fod yn ymuno a ysgol mwy ond beth am yr hyn fyddai'r dysgwyr yn ei golli?" "Yn benodol dysgwyr bregus, a'i rhieni wedi dewis ysgol fach Baladeulyn iddynt." "Ychydig o engreifftiau yw'r sylw ac amser mae athrawon a chymorthyddion Baladeulyn yn gallu ei roi i'r dysgwyr." "Cyfrifoldebau megis rolau ar y Cyngor Ysgol, swyddi amser chwarae ayyb a rhannau mawr i'w chwarae mewn cyflwyniadau cyhoeddus." "Nid oes unrhyw blentyn yn cael ei eithro a bob un wedi magu balchder a hyder yn ei hunain o ganlyniad i hyn." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth adolygu'r Asesiad Effaith Llesiant a'r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, sy'n ystyried effaith bosibl newid ysgol ar ddysgwyr, yn ogystal â'r mesurau lliniaru priodol.<br><br>Er bod yr asesiadau'n dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen yn cyfateb fan leiaf i'r ddarpariaeth bresennol, maent hefyd yn pwysleisio'r angen am drefniadau pontio briodol a chefnogaeth briodol i leihau unrhyw effaith andwyol ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |
| 3.5.2 | Mynegir pryder bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar fanteision posibl i ddysgwyr, heb roi digon o sylw i'r hyn y byddent yn eu colli e.e. sylw ac amser unigol, derbyn cyfrifoldebau fel bod yn rhan o'r Cyngor Ysgol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyflwyniadau cyhoeddus. Mae'n amlwg bod pob dysgwr yn chwarae rhan ganolog oherwydd y niferoedd llai, yn meithrin eu balchder, eu hyder a'u sgiliau bywyd. | Ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu'r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Nodir bod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i'r ddarpariaeth bresennol ac yn galluogi i rai dysgwyr gael eu haddysgu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |

**3.6 Effaith ar ddysgwyr bregus**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 3.6.1 | *"Gall pontio i ysgol fwy fod yn heriol i lawer o blant, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n ffynnu mewn lleoliadau llai."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi bod Ysgol Talysarn, fel Ysgol Baladeulyn, yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisïau i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio briodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr unigol drwy'r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyfarwyddo â'r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr, a darparu cefnogaeth dargedig lle bo angen.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, a chafodd hwn ei gynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, cafodd yr asesiad ei ddiweddaru.<br><br>Mae'r asesiad diwygiedig yn parhau i gydnabod bod dyletswydd statudol ar bob ysgol i ddarparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr ag ADY, ac yn nodi bod ysgolion mwy yn aml â darpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy cadarn, a mynediad at ystod ehangach o ymyriadau a chymorth arbenigol. Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a'r dystiolaeth berthnasol, daw'r asesiad i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Talysarn o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd. |
| 3.6.2 | *"Bydd hyn yn achosi i'm plant golli eu hunain gan fod un yn ei chael hi'n anodd mewn ysgol fwy." "Mae'r ysgol wedi'u cefnogi erioed."* | |

| | | |
|---|---|---|
| | | O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o arwain at effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod. |

**4. Y GYMRAEG**

**4.1 Sylwadau cadarnhaol am y ddarpariaeth Gymraeg bresennol**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 4.1.1 | *"Mae'r ysgol wedi dysgu plant o fod yn rhugl mewn Ffrangeg, Saesneg ac Almaeneg i fod yn llawn Gymraeg." "Mae'r Gymraeg yn cael ei anghofio ac mae angen ei pharhau."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |
| 4.1.2 | *"Mae gan Ysgol Talysarn ac Ysgol Baladeulyn ddarpariaethau Cymraeg rhagorol."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |
| 4.1.3 | *"Mae Ysgol Baladeulyn yn cadw'r iaith Gymraeg yn fyw ac mae'r plant yn hapus i siarad Cymraeg yn hyderus."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |
| 4.1.4 | "Mae'r ysgol yn ymhyfrydu mewn rhoi statws uchel i'r Gymraeg ymhob agwedd o'i darpariaeth, ac yn ymfalchïo mewn cynnal gweithgareddau uniaith Gymraeg sy'n croesawu'r gymuned gyfan." "Pob gwasanaeth a chyngerdd - Nadolig, Diolchgarwch, Dydd Gŵyl Dewi - pob cyflwyniad plant a phob achlysur dathlu... yn gwbl uniaith Gymraeg pob un." "Heb yr ysgol mae perygl gwirioneddol y bydd y defnydd cymunedol o'r Gymraeg yn gwanhau." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd y Cyngor asesiad o effaith y cynnig yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, a chyhoeddwyd y fersiwn wreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol. Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig yn nodi bod canran uchel o blant dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-ddalgylch (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn, sy'n awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol ehangach eisoes yn bodoli. Ar yr un pryd, daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd- |

| | | |
|---|---|---|
| | | destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |

**4.2 Pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar addysg Gymraeg**

| **Cyf** | **Sylwadau** | **Ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|
| 4.2.1 | "Bydd yn cael effeithiau andwyol ar y iaith a bydd nifer llai o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig, pe byddai'n cael ei weithredu, yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |
| 4.2.2 | *"Byddai'r effaith yn sylweddol gan fod mwy yn siarad Saesneg mewn ysgolion mwy, ond mae Baladeulyn yn gwbl Gymraeg."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref.<br><br>Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |
| 4.2.3 | *"Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg mewn ysgolion mwy."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. |
| 4.2.4 | *"Effaith niweidiol sylweddol ar yr iaith Gymraeg, gan fod yr ysgol wedi'i lleoli ar ffin Parc Cenedlaethol Eryri."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref.<br><br>Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |
| 4.2.5 | Gallai'r cynnig leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig i ddysgwyr bregus sy'n dibynnu ar amgylchedd bach a sefydlog i ddatblygu a chynnal eu sgiliau iaith. Rhaid i'r Cyngor ystyried sut gallai'r trosglwyddiad roi'r Gymraeg dan anfantais o gymharu â'r Saesneg i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol a sut byddai'r effeithiau hyn yn cael eu lliniaru. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.<br><br>Mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth adolygu'r Asesiad Effaith Llesiant a'r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, sy'n ystyried effaith bosibl newid ysgol ar ddysgwyr, yn ogystal â'r mesurau lliniaru priodol.<br><br>Er bod yr asesiadau'n dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen yn cyfateb fan leiaf i'r ddarpariaeth bresennol, maent hefyd yn pwysleisio'r angen am drefniadau pontio a chefnogaeth briodol i leihau unrhyw effaith andwyol ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Mae'r Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26 yn ddogfen swyddogol a gyhoeddir gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd i roi manylion i rieni am amryw o drefniadau addysgol, gan gynnwys darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Mae'r llawlyfr ar gael yma: Llawlyfr Rhieni<br><br>Fel a nodir yn y llawlyfr, mae gan dysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. |

**4.3 Effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 4.3.1 | Mynegir pryder difrifol ynghylch effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg a bywyd y gymuned. Nodir bod yr ysgol a'i digwyddiadau wedi bod yn gyfrwng pwysig i integreiddio trigolion newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Teimlir y byddai colli'r ysgol yn tanseilio'r broses hon. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio rôl bwysig Ysgol Baladeulyn.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol, gyda'r materion a godwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried wrth lunio'r asesiad diwygiedig.<br><br>Ar yr un pryd, daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.<br><br>Cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan roi ystyriaeth briodol i'r sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai, gan gynnwys pryderon ynghylch colli'r ysgol fel canolbwynt cymunedol.<br><br>Fel y nodir yn y casgliad yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned diweddaraf, barn y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned leol pe bai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu a gallai colli'r ysgol danseilio'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned. Mae'r casgliad hwn yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch llesiant cymdeithasol, ond mae hefyd wedi'i ffurfio ar sail y dystiolaeth ehangach a aseswyd yn yr asesiad.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod yn yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith |
| 4.3.2 | *"Mae Ysgol Baladeulyn yn gwasanaethu cymuned lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bob dydd."* | |
| 4.3.3 | Byddai colli'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal. | |
| 4.3.4 | "Gyntaf fydd y ysgol yn mynd fydd y Gymraeg ar i golled yn yr ardel hono am byth." | |
| 4.3.5 | Nodir cyfraniad uniongyrchol yr ysgol at gynnal yr iaith Gymraeg yn yr ardal lleol, gyda'r farn y gallai'r cynnig danseilio'r ecosystem ieithyddol yn y fro. | |
| 4.3.6 | "Credaf byddai cau Ysgol Baladeulyn yn cael effaith sylweddol a niweidiol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y pentref." | |
| 4.3.7 | Mynegir pryder difrifol ynghylch effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg a bywyd y gymuned. Nodir bod yr ysgol a'i digwyddiadau wedi bod yn gyfrwng pwysig i integreiddio trigolion newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Teimlir y byddai colli'r ysgol yn tanseilio'r broses hon. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd. |

**4.4 Pryder wrth gymharu'r nifer o ddysgwyr sydd yn siarad Gymraeg yn Nhalysarn a Nantlle**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 4.4.1 | *"Gallai symud plant i amgylchedd mwy a llai Cymraeg wanhau trochi Cymraeg." "Mae gan Dalysarn gyfran fwy o deuluoedd di-Gymraeg." "Bydd hyn yn golygu llai o gysylltiad â'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys y data diweddaraf, CYBLD Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref.<br><br>Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.<br><br>Yn ychwanegol i hyn, mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o ddysgwyr oed cynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn.<br>Ar yr un pryd, mae'r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig hefyd yn nodi bod canran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o ddysgwyr oed cynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y pryderon a fynegwyd fod presenoldeb yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal hunaniaeth Gymreig a defnydd dyddiol o'r Gymraeg. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>Mae'r asesiadau effaith diwygiedig yn nodi, pe byddai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu, y byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Baladeulyn a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo'n briodol, a defnyddio Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod fel fframwaith ar gyfer trafod opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n ymarferol.</td></tr>
<tr><td>4.4.2</td><td>"Mae'r ysgol bresennol yn darparu addysg bron yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg." "Mae Ysgol Talysarn yn defnyddio mwy o Saesneg."</td><td>Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Fodd bynnag, daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn  yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Yn ogystal, dengys data CYBLD Ionawr 2026 fod canran uwch o ddysgwyr Ysgol Talysarn (37%) yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref o'i chymharu â Ysgol Baladeulyn (29%). Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.</td></tr>
<tr><td>4.4.3</td><td>"Byddai cau'r ysgol yn ergyd drom i'r iaith Gymraeg a chymuned Nantlle." "Yn enwedig o gysidro bod lefelau y Gymraeg yn 55% ym Maladeulyn a'n 37% yn Nhalysarn."</td><td rowspan="5">Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref.<br><br>Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.</td></tr>
<tr><td>4.4.4</td><td>Mynegir y farn y byddai cau'r ysgol yn cael ergyd drom ar y Gymraeg 'r gymuned, o ystyried y defnydd canrannau y Gymraeg yw 55% ym Maladeulyn a 37% yn Nhalysarn.</td></tr>
<tr><td>4.4.5</td><td>"Byddai cau'r ysgol yn ergyd drom i'r iaith Gymraeg a chymuned Nantlle." "Yn enwedig o gysidro bod lefelau y Gymraeg yn 55% ym Maladeulyn a'n 37% yn Nhalysarn."</td></tr>
<tr><td>4.4.6</td><td>"Fel cynddisgybl, mi allai ddweud yn hyderus nai ond Cymraeg oedd yn cael ei siarad ym Maladeulyn." "yn Nhalysarn roedd y disgyblion yn fwy tebygol o ddefnyddio Saesneg." "Mae hwn yn creu effaith diffifol ar yr iaith Gymraeg."</td></tr>
<tr><td>4.4.7</td><td>"Mae'r Gymraeg yn bwysig i'r Cyngor, ac yn wir mae gwaith dyddiol y Cyngor yn cael ei gynnal yn Gymraeg, fel y mae pob cyfarfod</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | *cyhoeddus." "Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol Gymraeg iawn. Mae ymysg yr uchaf yng Ngwynedd, 55% dw i'n meddwl, gyda'r uchaf yn 80%" "Ond mae'r Cyngor yn fodlon cynnig symud disgyblion i Ysgol Talysarn sydd â dim ond 37%, yr isaf yng Ngwynedd."* | |
| 4.4.8 | "Byddai cau'r ysgol yn ergyd drom i'r iaith Gymraeg a chymuned Nantlle." "Yn enwedig o gysidro bod lefelau y Gymraeg yn 55% ym Maladeulyn a'n 37% yn Nhalysarn." | |

**4.5 Mesurau lliniaru i ddiogelu'r Gymraeg a lleihau effeithiau andwyol**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 4.5.1 | *"Dylai'r Cyngor warantu bod Ysgol Talysarn yn cynnal ethos Cymraeg cryf fel iaith gyntaf." "Dylai trefniadau pontio flaenoriaethu cefnogaeth cyfrwng Cymraeg." "Dylai'r Cyngor hefyd gymryd camau i ddiogelu bywyd cymunedol Cymraeg yn Nantlle."* | Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref.<br><br>Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.<br><br>Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch defnydd o'r Gymraeg, ac yn nodi gallai'r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen drafod dulliau i annog a meithrin cyfleoedd a hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol. |
| 4.5.2 | "Sicrhau bod Cymraeg yn cael ei annog fwy na dim." | Fel uchod. |
| 4.5.3 | "Cyfeirio arbedion at gefnogi'r Gymraeg." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.<br><br>Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd. |
| 4.5.4 | "Byddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau. |

| | | |
|---|---|---|
| | bobl ddefnyddio’r Gymraeg.” “Drwy ddewis un o'r opsiynau amgen a gynnigwyd yn yr ymgynghoriad.” | Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o’r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei wynebu. Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr yn Ionawr 2026. O ganlyniad i’r niferoedd isel presennol, mae’r ysgol mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:<br><br>• Niferoedd isel o ddysgwyr - Yn Ionawr 2025, roedd 13 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 a 0 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn. Mae’r niferoedd wedi gostwng ymhellach ers hynny gyda 6 dysgwr llawn amser a 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr yn Ionawr 2026.<br>• Canran uchel o lefydd gweigion – Gyda 6 o ddysgwyr (Derbyn i Flwyddyn 6) ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 55, mae 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 89% o gapasiti’r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin - Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Baladeulyn 54 (87%) o lefydd gweigion.<br>• Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) mae un dosbarth sy’n cynnwys pob dysgwr yn yr ysgol – sef 6 dysgwr Derbyn-Bl.6 (Derbyn, Bl.1 a 2, a Bl. 4 a 5) ynghyd â 2 ddysgwr Meithrin. O fewn y dosbarth hwn, caiff grwpiau gwahanol eu ffurfio ar wahanol adegau o’r dydd, gyda’r cymorthyddion yn arwain y gweithgareddau (gyda'r dysgwyr ieuengaf). Mae hyn felly yn golygu mae’r amrediad oedran yn y dosbarth cyfan yn ymestyn hyd at 8 mlynedd.<br>• Rhagamcanion niferoedd – Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y dair mlynedd nesaf, gyda rhagamcan o 7 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.<br>• Dysgwyr y dalgylch –Yn ôl gwybodaeth Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) Ionawr 2026, dim ond 25% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy’n dewis mynychu’r ysgol. Mae 75% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.<br>• Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i’r dyraniad cyllidol craidd – Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i’r dyraniad arferol trwy’r polisi lleiafswm staffio (sy’n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob |
| 4.5.5 | “drwy gysidro un o’r opsiynau amgen yn yr ymgynghoriad yn hytrach na cau’r ysgol ar 31ain o Ragfyr 2026.” | |
| 4.5.6 | “drwy gysidro un o’r opsiynau amgen yn yr ymgynghoriad yn hytrach na cau’r ysgol ar 31ain o Ragfyr 2026.” | |

| | | |
|---|---|---|
| | | ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £74,446.<br>• Cyfartaledd cost fesul dysgwr – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £25,123 o gymharu â'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod yn £5,998.<br><br>Yn dilyn pwyso a mesur manteision ac anfanteision yr opsiynau amgen ar gyfer Ysgol Baladeulyn, deuir i'r casgliad nad ydynt am ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir uchod. Caiff yr opsiynau amgen rhesymol eu hystyried ymhellach yn  Adran 7 o'r adroddiad hwn. |
| 4.5.7 | Os yw cadw'r iaith yn bwysig, yna mae angen cadw ysgolion lleol ar agor ...dyma ffordd orau i ddysgu Cymraeg yn enwedig i blant o deuluoedd sy'n siarad Saesneg. | Mae'r Cyngor yn nodi'r gwrthwynebiadau a fynegwyd mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn.<br><br>Ffefrir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn am ei fod yn ymateb yn uniongyrchol i'r heriau sylweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu, sef:<br>• niferoedd isel iawn o ddysgwyr, sydd wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf;<br>• canran uchel iawn o lefydd gwag, sy'n tanseilio cynaliadwyedd y ddarpariaeth;<br>• dosbarthiadau bychan gydag amrediad oedran eang, sy'n cyflwyno heriau o ran trefniadaeth ac ansawdd profiadau addysgol;<br>• rhagamcanion niferoedd isel i'r dyfodol, nad ydynt yn awgrymu gwelliant sylweddol yn y sefyllfa;<br>• patrwm clir o ddewis gan ddysgwyr y dalgylch, gyda'r mwyafrif eisoes yn mynychu ysgolion eraill;<br>• cost fesul dysgwr sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol, sy'n codi pryderon am gynaliadwyedd ariannol hirdymor.<br><br>Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno'r adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p'run ai a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ai peidio. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn llawn wrth lunio'r adroddiad ymgynghori yma (Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori), ac wedi llywio'r asesiadau pellach a'r gwerthusiad o'r cynnig a'r opsiynau amgen rhesymol.<br><br>Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig<br>Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu".<br>Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad. |

**4.6 Effaith Gadarnhaol y Cynnig ar y Gymraeg**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 4.6.1 | "Dim effaith negyddol." "Os rhywbeth gwelliant ar y sail bydd cyfle i ddefnyddio'r gymraeg mewn cyfystur mwy hyfyw gyda mwy o blant." "Mewn ysgol fwy mae effaith felly yn llawer llai sylweddol." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.<br><br>Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |

**5. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)**

**5.1 Parhad staff a chymorth ADY**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 5.1.1 | "Mae'r ysgol yn ariannu ... [cymhorthydd i]...ddysgwr ADY, a fydd yr oriau yma'n cael eu trosglwyddo i ysgol newydd?" "Er mwyn sicrhau parhad a sefydlogrwydd i'r dysgwr, a fydd yr un cymhorthydd yn cael parhau yn ei swydd i gefnogi'r dysgwr?" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hwn, ac er na ellir gwarantu y bydd parhad staff cefnogi yn yr ysgol amgen, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodir bod pob cais yn cael ei asesu'n unigol. Mae'r Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26 yn ddogfen swyddogol a gyhoeddir gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd i roi manylion i rieni am amryw o drefniadau addysgol, gan gynnwys darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Mae'r llawlyfr ar gael yma: Llawlyfr Rhieni<br><br>Fel a nodir yn y llawlyfr, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid.<br><br>O ran y sylwadau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Cyngor, nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i'r Awdurdod Lleol, a bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu hystyried yn barhaus drwy'r trefniadau statudol presennol. Mae'r broses ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i chynnal ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, ac mae unrhyw benderfyniad terfynol, pe bai'n cael ei wneud, yn cynnwys ystyried trefniadau pontio briodol a chefnogaeth addas i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ADY. |
| 5.1.2 | Cwestiynu os fyddai'r athrawon a chymorthyddion presennol yn parhau er mwyn sicrhau dilyniant a sefydlogrwydd, ac os fyddai cyllid ADY dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau pe bai'r ysgol yn cau. | |
| 5.1.3 | *"Mae 28.75 awr wedi'u dyrannu ar gyfer cynorthwyydd lefel 3, fel sy'n ofynnol i ddarparu gofal un-i-un i ddisgybl âg anabledd dysgu difrifol." "A fydd y person sy'n darparu'r gofal ar hyn o bryd yn cael ei drosglwyddo i Ysgol Talysarn i sicrhau parhad gofal i'r disgybl hynod fregus hwn? Neu a fydd y plentyn hwn yn cael ei orfodi i wynebu nid yn unig newid ysgol o un braf a thawel i un a fydd bron â bod yn llawn (95 o ddisgyblion), ond hefyd gymhorthydd newydd sy'n ddieithr?" "Sut y gallai hyn fod er budd y plentyn o gwbl?"* | |
| 5.1.4 | Nodir bod symudiad gorfodol i ysgol fwy neu anghyfarwydd yn debygol o achosi gofid sylweddol a tharfu ar gynnydd plant ag ADY, yn enwedig y rhai sy'n dibynnu'n helaeth ar drefn, cysondeb a staff cyfarwydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| 5.1.5 | *“Rhaid i’r Cabinet ystyried goblygiadau cost cau’r ysgol, gan gynnwys costau diswyddiadau, a cholli arbenigedd AAA a gwybodaeth feddygol.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw.<br><br>Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai’r swyddi yn dod i ben pan fyddai’r ysgol yn cau. Ymgynghorwyd yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o’r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy’n deillio o’r cynnig gydymffurfio â’r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiynau galw heibio lle'r oedd swyddogion o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn bresennol os oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Rhoddwyd gwybod fod croeso hefyd i staff gysylltu â’r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cael trafodaethau pellach. |

**5.2 Effaith ysgol fwy ar blant sydd ag ADY**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 5.2.1 | “Mae’r cynnig yn sicr am gael mwy o effaith ar y dysgwyr rheini o gefndiroedd mwy bregus, dysgwyr sy’n naturiol swil” “dysgwyr sy’n naturiol swil sydd wedi cael cyfle i fagu hyder a blodeuo mewn ysgol fach ac ar ddysgwyr ADY.” | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd sy’n pwysleisio’r gefnogaeth gynhwysol a ddarperir i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys sylw personol ac ymateb hyblyg i anghenion emosiynol rhai dysgwyr.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, a chafodd hwn ei gynnwys fel rhan o’r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, cafodd yr asesiad ei ddiweddaru. Mae’r asesiad diwygiedig yn parhau i gydnabod bod dyletswydd statudol ar bob ysgol i ddarparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr ag ADY, ac yn nodi bod ysgolion mwy yn aml â darpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy cadarn, a mynediad at ystod ehangach o ymyriadau a chymorth arbenigol. Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a’r dystiolaeth berthnasol, daw’r asesiad i’r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Talysarn o leiaf yn cyfateb i’r |
| 5.2.2 | Rydym wedi cael profiad blaenorol ble na chafodd anghenion fy mhlentyn eu hadnabod mewn ysgol fwy dros gyfnod hir, ond ers symud i Ysgol Baladeulyn, mae’r anghenion hynny wedi eu hadnabod ac mae’r ysgol wedi darparu’r cefnogaeth briodol.<br>Rwy’n mynegi hyder cryf yn allu Ysgol Baladeulyn i ddeall a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, o’i gymharu ag amheuaeth ynghylch gallu ysgolion mwy i wneud hynny yr un mor effeithiol. Byddai cau Ysgol Baladeulyn yn dileu amgylchedd diogel a chefnogol sydd wedi profi ei fod yn gallu deall a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, gan gynnwys o safbwynt cefnogi dysgwyr ag ADY.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ystyried y pryderon wrth gynnal a diweddaru'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant. Mae'r Cyngor yn nodi bod Ysgol Talysarn, fel Ysgol Baladeulyn, yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisïau i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio briodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr unigol drwy'r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyfarwyddo â'r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr, a darparu cefnogaeth dargedig lle bo angen.<br><br>Er bod yr asesiadau effaith wedi'u diweddaru i gofnodi ac ystyried y pryderon hyn, nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod. Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant yn nodi'r angen i sicrhau trefniadau pontio briodol a chymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr unigol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o arwain at effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod. |

**5.3 Lles, hyder a diogelwch dysgwyr ADY**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 5.3.1 | Pwysleisir bod rhieni wedi gwneud dewis ymwybodol i anfon eu plant i ysgol fach, gartrefol lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus, a bod y dewis hwn yn haeddu'r un parch â dewisiadau rhieni eraill yn y dalgylch i yrru eu plant i ysgolion eraill. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.<br><br>Yn unol â Pholisi Mynediad, mae gan rieni hawl i fynegi dewis o ysgol ar gyfer eu plentyn, ac nid oes gofyniad iddynt fynychu'r ysgol yn eu pentref nac yn eu dalgylch cartref o reidrwydd. Mae'r Awdurdod yn ystyried pob cais yn unol â'r meini prawf mynediad statudol ac yn dyrannu lleoedd pan fo lle ar gael. Nodir hefyd fod rhieni'n gwneud dewisiadau addysgol yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys profiad personol, anghenion unigol plant, a dewisiadau teuluol. |
| 5.3.2 | Pwysleisir bod angen i'r Cyngor ystyried effaith ddifrifol trosglwyddiadau gorfodol ar blant gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys, a'r risgiau cysylltiedig â newid sydyn mewn lleoliad addysgol. Mynegir pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negatif ar ddysgwyr anabl, yn enwedig plant awtistig a'r rhai ag anawsterau cyfathrebu. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ystyried y pryderon wrth gynnal a diweddaru'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant. Mae'r Cyngor yn nodi bod Ysgol Talysarn, fel Ysgol Baladeulyn, yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisïau i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio briodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr unigol drwy'r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyfarwyddo â'r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr, a darparu cefnogaeth dargedig lle bo angen.<br><br>Mae'r Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26 yn ddogfen swyddogol a gyhoeddir gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd i roi manylion i rieni am amryw o drefniadau addysgol, gan gynnwys darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Mae'r llawlyfr ar gael yma: Llawlyfr Rhieni.<br><br>Fel a nodir yn y llawlyfr, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid.<br><br>O ran y sylwadau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i'r Awdurdod Lleol, a bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu hystyried yn barhaus drwy'r trefniadau statudol presennol. Mae'r broses ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i chynnal ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, ac mae unrhyw benderfyniad terfynol, pe bai'n cael ei wneud, yn cynnwys ystyried trefniadau pontio briodol a chefnogaeth addas i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ADY.<br><br>Er bod yr asesiadau effaith wedi'u diweddaru i gofnodi ac ystyried y pryderon hyn, nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gyfwerth, fan leiaf, â'r ddarpariaeth bresennol o ran ansawdd a safonau addysg. Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant yn nodi'r angen i sicrhau trefniadau pontio briodol a chymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr unigol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |

**5.4 Galw cynyddol am ddarpariaeth ADY**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 5.4.1 | *"Ar hyn o bryd, mae nifer uchel o ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi'u cofrestru yn Ysgol Baladeulyn. Mae'r niferoedd derbyn presennol yn ysgolion AAA Pendalar a Hafon y Lôn yn agosáu at eu capasiti, er gwaethaf niferoedd uwch nag erioed o blant ag AAA sy'n cael eu haddysgu gartref."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.<br><br>Mae'r Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26 yn ddogfen swyddogol a gyhoeddir gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd i roi manylion i rieni am amryw o drefniadau addysgol, gan gynnwys darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Mae'r llawlyfr ar gael yma: Llawlyfr Rhieni |

| | | |
|---|---|---|
| | | Fel a nodir yn y llawlyfr, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid.<br><br>O ran y sylwadau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth, nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i'r Awdurdod Lleol, a bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu hystyried yn barhaus drwy'r trefniadau statudol presennol. Mae'r broses ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i chynnal ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, ac mae unrhyw benderfyniad terfynol, pe bai'n cael ei wneud, yn cynnwys ystyried trefniadau pontio briodol a chefnogaeth addas i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ADY. |

## 6. GOBLYGIADAU CLUDIANT, TEITHIO A DIOGELWCH

### 6.1 Cerdded, beicio ac annibyniaeth dysgwyr

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 6.1.1 | *"Caniateir i ddisgyblion Blwyddyn 4 gerdded neu feicio adref o'r ysgol." "Mae hyn wedi bod yn ddewis poblogaidd i ddisgyblion Baladeulyn dros y blynyddoedd ac mae'n dal felly heddiw ar ddiwrnodau braf a sych." "Mae hyn yn rhoi ychydig o annibyniaeth i'r plant ac yn helpu i feithrin eu hyder."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio.<br><br>Gan fod yr ysgol amgen wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, ac ymhellach o rai cartrefi dysgwyr y dalgylch, ni ragwelir y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cerdded i'r ysgol amgen.<br><br>Ar sail yr uchod, mae'r Awdurdod wedi nodi byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu yn Ysgol Talysarn, a byddai'r Awdurdod angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Sir. |
| 6.1.2 | *"Mae'n cymryd tua 10–15 munud iddynt gerdded o Ysgol Baladeulyn i'r parc." "Pawb yn chwarae'n hapus yn yr awyr agored ac yn ymarfer corff." "Credaf ei fod yn beth mawr i geisio cael mwy o blant i chwarae tu allan."* | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost o £17,000 i £30,000 y flwyddyn, a bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd.  Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. |

**6.2 Cludiant i Ysgol Talysarn**

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Sylwadau</th><th>Ymateb Cyngor Gwynedd</th></tr>
<tr><td>6.2.1</td><td>“Mae angen cludiant i Ysgol Talysarn ar bob plentyn presennol, waeth beth o'u hardal ddalgylch, fel blaenoriaeth.”</td><td rowspan="6">Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio. Fel y nodir yn yr asesiad, mae Ysgol Talysarn wedi'i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr hynny yn Ysgol Talysarn yn cael ei weithredu, byddai dalgylch diwygiedig Ysgol Talysarn yn cynnwys dalgylch presennol Ysgol Talysarn a dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn wedi'u cyfuno.<br><br>Byddai dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sy'n byw o fewn y dalgylch hwnnw yn cael cynnig cludiant i Ysgol Talysarn lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. O dan y Polisi, darperir cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch neu'r ysgol agosaf, neu lle bo'r llwybr cerdded yn cael ei asesu'n anniogel.<br><br>Yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd, nodir na fyddai dysgwyr sy'n byw y tu allan i'r dalgylch diwygiedig hwnnw yn gymwys i dderbyn cludiant ysgol di-dâl i Ysgol Talysarn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ystyried ceisiadau unigol mewn amgylchiadau unigryw.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd, er hynny ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.</td></tr>
<tr><td>6.2.2</td><td>“A fydd cludiant i Daylsarn yn cael ei gynnig i bob plentyn sydd ar gofrestr Baladeulyn ar hyn o bryd, gan gynnwys y plant hynny sydd allan o ddalgylch pentref Nantlle?”</td></tr>
<tr><td>6.2.3</td><td>“Trefnu cludiant i BOB plentyn presennol Ysgol Baladeulyn.” “Dylid trefnu cludiant i BOB plentyn, waeth beth o'u hardal ddalgylch.”</td></tr>
<tr><td>6.2.4</td><td>“Byddai angen i gludiant fod yn flaenoriaeth i BOB disgybl sy'n mynychu Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, gan gynnwys plant sy'n byw y tu allan i'r ardal ddalgylch, er mwyn iddynt allu aros gyda'u cyfoedion.”</td></tr>
<tr><td>6.2.5</td><td>“oes sicrhad yn cael ei roi y bydd POB plentyn sydd ar gofrestr Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd yn cael cludiant i Ysgol Talysarn?”<br>“oes sicrhad yn cael ei roi y bydd plant oed meithrin sy'n byw yn y pentref yn cael cludiant i sesiynau meithrin Ysgol Talysarn.”</td></tr>
<tr><td>6.2.6</td><td>Gofynnwyd a fydd cost ychwanegol i rieni/gwarchodwyr ar gyfer cludo eu plentyn i'r ysgol amgen,</td></tr>
</table>

**6.3 Pryderon ynghylch diogelwch teithio**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 6.3.1 | *“Nid oes unrhyw ffyrdd diogel i blant deithio ar droed gan fod y ffordd yn beryglus oherwydd diffyg palmant a thraffig sy’n symud yn gyflym.”* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.<br><br>Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio. Fel y nodir yn yr asesiad, mae Ysgol Talysarn wedi’i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael ei gynnwys o fewn dalgylch Ysgol Talysarn. Byddai dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sy’n gymwys i dderbyn cludiant yn cael cynnig cludiant i Ysgol Talysarn, lle bo’n berthnasol, yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd.<br><br>Yn unol a Polisi Cludiant Addysg Gwynedd, mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy’n byw 2 filltir neu fwy o’r ysgol yn eu dalgylch, ysgol agosaf neu pan fo dysgwyr yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae’r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn. Y diffiniad o ffordd beryglus yw ble mae natur y ffordd (sy’n cynnwys llwybrau troed cyhoeddus) yn golygu nad yw’n rhesymol disgwyl i ddysgwyr (wrth ystyried eu hoedran a gyda hebryngwyr fel bo angen) i gerdded yn gymharol ddiogel. Wrth asesu diogelwch cymharol ffordd, bydd y Cyngor yn asesu’r peryglon y gallai dysgwr eu hwynebu ar hyd y ffordd a bennir (yn cynnwys, e.e. afonydd, ffosydd, cyflymder traffig ar hyd y ffordd gyfagos, damweiniau wedi digwydd yn y gorffennol, coed yn gôr hongian neu ganghennau a allai rwystro cerddwyr neu yrwyr rhag gweld, ayyb). Rhaid cynnal yr asesiad ar yr amser o’r dydd a dyddiau’r wythnos y gellid disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio’r ffordd.<br><br>Yn unol a Polisi Cludiant Addysg Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy’n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw’r un nad yw’r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu’r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai’r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. Mae’r Polisi i’w weld yn y llawlyfr i rieni: Gwybodaeth i Rieni |
| 6.3.2 | Mynegir pryder ynghylch diogelwch teithio pe bai plant yn gorfod mynychu ysgol ymhellach i ffwrdd. Nodir nad yw’r llwybrau posibl rhwng y cymunedau yn addas nac yn ddiogel ar gyfer cerdded, gan gynnwys llwybrau drwy ardaloedd diwydiannol neu ar hyd prif ffyrdd cyflym. | |
| 6.3.3 | *“Gan nad oes LLWYBR CERDDDED DIOGEL, nid yw cerdded yn opsiwn”* | |
| 6.3.4 | Nodir os yw Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai’r dysgwyr yn colli’r gallu i gerdded i’r ysgol yn ddiogel, oherwydd nad oes lon na llwybrau addas. Cwestiynwyd a fyddai’r Cyngor yn ariannu creu llwybr pwrpasol? | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nid yw dysgwyr meithrin yn gymwys o dan y polisi, ac nid yw'r polisi'n rhagdybio bod rhieni'n gyfrifol am ddarparu cludiant lle bo plentyn yn gymwys am gludiant statudol.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd, er hynny ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. |
| 6.3.5 | "A fydd yn Cyngor yn cysidro ariannu llwybr pwrpasol i gysylltu'r ddau bentref, heibio stad tai Bro Silyn, i alluogi plant a thrigolion Nantlle a Thalysarn gerdded rhwng y ddau pentref?" | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi' r sylw o ran trafnidiaeth newydd, megis llwybr cerdded pwrpasol i gysylltu'r ddau bentref. Byddai unrhyw ystyriaeth o ddatblygu neu ariannu llwybr o'r fath y tu allan i gwmpas y cynnig statudol hwn, a byddai angen ei asesu ar wahân drwy drefniadau cynllunio a chyllido priodol.<br><br>O ran diogelwch teithio, nodir bod Polisi Cludiant Addysg Gwynedd yn darparu ar gyfer cludiant ysgol lle bernir bod llwybr cerdded yn un peryglus neu'n anaddas, waeth beth fo'r pellter. Pe câi'r cynnig ei weithredu, byddai cymhwysedd dysgwyr i gludiant ysgol yn cael ei asesu yn unol â'r polisi hwnnw, gan sicrhau bod trefniadau cludiant priodol ar gael lle bo hynny'n berthnasol. |
| 6.3.6 | *"Fel ar hyn o bryd, nid oes gan y ffordd sy'n cysylltu'r ddwy pentref lwybr cerdded na lôn feicio. Dim ond llain laswellt wedi gordyfu." "Er bod y terfyn cyflymder wedi'i ostwng i 50mya, mae'n dal yn beryglus cerdded ar hyd y ffordd, yn enwedig gyda thryciau HGV o'r chwareli a thraffig amaethyddol, heb sôn am lifogydd pan fydd hi'n bwrw glaw." "A all y Cyngor ein sicrhau y byddant yn darparu llwybr cerdded a lôn feicio addas rhwng Talysarn a Nantlle, rhywbeth wnaethon nhw wrthod ei ystyried yn ystod yr ymgynghoriad cyn bwrw ati i wella'r ffordd a'i throi'n drac rasio dan ddŵr?"* | |
| 6.3.7 | *"Dim palmant cyhoeddus mewn parth 50mya... goleuadau stryd gwael ac yn dueddol o lifogydd."* | |

**6.4. Effaith teithio pellach ar lesiant y dysgwyr**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 6.4.1 | Pryderir pe bai'n rhaid i ddysgwyr deithio ymhellach, gan nodi natur cul ac ansicr y ffyrdd, a' r effaith bosibl ar lesiant a diogelwch y dysgwyr. | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch y posibilrwydd y byddai dysgwyr yn gorfod teithio pellter pellach, gan gynnwys pryderon am natur cul ac ansicr rhai ffyrdd lleol, a'r effaith bosibl ar ddiogelwch a llesiant dysgwyr.<br><br>Fel rhan o'r broses statudol, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig ar drefniadau teithio, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn wedi'i ddiweddaru yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymgynghoriad statudol, ac mae'n ystyried pellteroedd, diogelwch llwybrau a goblygiadau posibl i ddysgwyr.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai unrhyw drefniadau cludiant ysgol yn cael eu darparu ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am gludiant yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd, a darperir cludiant lle bernir bod y llwybr cerdded yn beryglus neu'n anaddas, waeth beth fo'r pellter. Caiff llwybrau cerdded eu hasesu'n fanwl yn unol â'r polisi, gan ystyried ffactorau megis natur y ffordd, cyfaint a chyflymder traffig, a diogelwch cyffredinol ar adegau perthnasol o'r dydd.<br><br>Er bod y Cyngor yn cydnabod, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y gallai rhai dysgwyr deithio pellter pellach nag ar hyn o bryd, ond ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai trefniadau cludiant, lle bo'n berthnasol, yn cael eu cynllunio i leihau unrhyw risgiau diogelwch posibl ac i liniaru effaith negyddol ar lesiant dysgwyr. |

**6.5 Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 6.5.1 | Nid ydym yn gyrru, a byddai bysus yn heriol ofnadwy i deithio i'r ysgol ac yn ôl bob dydd. | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau ac yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch addasrwydd a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â'r heriau ymarferol a allai godi i deuluoedd nad ydynt yn gyrru.<br><br>Fel rhan o'r broses statudol, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn wedi'i ddiweddaru yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr hynny yn Ysgol Talysarn yn cael ei weithredu, byddai unrhyw drefniadau cludiant ysgol yn cael eu darparu ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am gludiant yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd, ac ni fyddai disgwyl i'r teuluoedd hynny ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i alluogi'r dysgwyr i fynychu'r ysgol. |
| 6.5.2 | *"Nid yw'r drafnidiaeth gyhoeddus yn ddigonol."* | |
| 6.5.3 | *"Gall amserlen y bws fod yn annibynadwy."* | |
| 6.5.4 | *"O ystyried y sefyllfa drafnidiaeth gyda bysiau ac ati, mae angen ysgol yn y pentref."* | |
| 6.5.5 | *"Nid oes cludiant cyhoeddus ar gael ar adegau addas chwaith."* | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae Polisi Cludiant Addysg Gwynedd yn darparu cludiant ysgol di-dâl i ddysgwyr sy’n byw 2 filltir neu fwy o’r ysgol yn eu dalgylch, yr ysgol agosaf, neu lle mae’r pellter cerdded byrraf addas rhwng cartref y dysgwr a’r ysgol dros 2 filltir, neu lle bernir bod y llwybr cerdded yn beryglus neu’n anaddas, waeth beth fo’r pellter. Caiff llwybrau cerdded eu hasesu yn unol â’r polisi.<br><br>Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael ei gynnwys o fewn dalgylch diwygiedig Ysgol Talysarn. O ystyried bod Ysgol Talysarn wedi’i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn sy’n gymwys o dan y polisi yn cael cynnig cludiant ysgol a drefnir gan y Cyngor.<br><br>Er y cydnabyddir y byddai rhai dysgwyr yn teithio pellter pellach na’r presennol, ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i’r ysgol. Bydd trefniadau cludiant yn cael eu cynllunio i leihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar ddysgwyr a theuluoedd. |

**6.6 Heriau i deuluoedd nad ydynt yn gyrru**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 6.6.1 | *“Pe byddai cau Baladeulyn yn mynd yn ei flaen a lleoedd yn cael eu cynnig yn Nhalysarn, byddai angen ystyried o ddifrif sut y byddai’r plant yn cyrraedd yr ysgol.” “Yn enwedig gan nad yw rhai rhieni ac aelodau o’r teulu sy’n darparu gofal plant yn gyrru.”* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylwadau ac yn cydnabod bod trefniadau teithio yn ystyriaeth bwysig i deuluoedd, yn enwedig lle gallai teithio pellach gynyddu pwysau ymarferol ac ariannol ar deuluoedd.<br><br>Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio. Fel y nodir yn yr asesiad, mae Ysgol Talysarn wedi’i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael ei gynnwys o fewn dalgylch Ysgol Talysarn. Byddai dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sy’n gymwys i dderbyn cludiant yn cael cynnig cludiant i Ysgol Talysarn, lle bo’n berthnasol, yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. |
| 6.6.2 | *“Byddai peidio â darparu cludiant yn cynyddu’r pwysau ar rieni a theuluoedd nad ydynt yn gyrru oherwydd y costau ychwanegol, yn enwedig pan mae gofalwyr yn byw’n lleol i’r Ysgol presennol a gyda anableddau sy’n cyfyngu ar eu symudiad.”* | |
| 6.6.3 | Byddai’n rhaid aros am gyfnod sylweddol yn eistedd y tu allan, heb unrhyw gyfleusterau… nid wyf yn gallu sefyll am hanner y cyfnod a fyddai’n ofynnol er mwyn mynd a fy mhlentyn i’r ysgol. | |
| 6.6.4 | “Mae’r rhain yn gwestiynau bydd teuluoedd â phlant ifanc eisiau ateb iddynt cyn penderfynu ymgartrefu ym mhentref Nantlle.” | |

| | | |
|---|---|---|
| 6.6.5 | Gofynnir a fyddai unrhyw gymorth ariannol ar gael i deuluoedd a fyddai'n wynebu costau cludiant ychwanegol, yn enwedig lle byddai angen defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus sawl gwaith y dydd. Gall olygu fod raid i rai rhieni gymryd bws i ac o'r ysgol amgen ddwy waith y dydd - a fydd cefnogaeth i gyllido hyn? | Yn unol a Polisi Cludiant Addysg Gwynedd, mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, ysgol agosaf, neu pan fo dysgwyr yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn. Mae'r Polisi i'w weld yn y llawlyfr i rieni: Gwybodaeth i Rieni.<br><br>Nid yw dysgwyr Meithrin yn gymwys o dan y polisi, ac nid yw'r polisi'n rhagdybio bod rhieni'n gyfrifol am ddarparu cludiant lle bo dysgwr yn gymwys am gludiant statudol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd, er hynny ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Fodd bynnag, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, anogir rhieni neu ofalwyr sydd â phryderon penodol ynghylch trefniadau teithio i gysylltu â'r Adran Addysg i drafod eu hamgylchiadau. |
| 6.6.6 | *"Byddai'n lleddfu llawer o'n straen pe bai'r Cyngor yn cytuno i ddarparu cludiant i'n plant [o bentref tu allan y dalgylch i Dalysarn] er mwyn hwyluso'r cyfnod pontio hwn i ni i gyd."* | |

**6.7 Cludiant i blant dan 5 oed**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 6.7.1 | Codir pryderon ymarferol ac ariannol ynghylch cludiant i blant dan 5 oed (nad ydynt eto mewn addysg statudol). Nodir y gallai hyn fod yn her sylweddol i deuluoedd heb fynediad i gar, gan arwain at gostau a threfniadau cymhleth o ddydd i ddydd. | Mae'r Cyngor yn nodi'r galwad am eglurder a sicrwydd ynghylch trefniadau a goblygiadau costau cludiant pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd. Nid yw dysgwyr meithrin yn gymwys o dan y polisi, ac nid yw'r polisi'n rhagdybio bod rhieni'n gyfrifol am ddarparu cludiant lle bo dysgwr yn gymwys am gludiant statudol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw cludiant ysgol, fel arfer, yn cael ei ddarparu i hwyluso mynediad at wasanaethau ychwanegol, ac mae trefniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi cludiant a'r meini prawf statudol perthnasol. |
| 6.7.2 | "O gysidro nad yw addysg yn statudol i blentyn nes y tymor ar ol iddynt droi'n 5 oed, a fydd y cludiant yma'n cael ei gynnig i ddysgwyr 3 a 4 oed?" "A fydd trefniadau addas wedi eu gwneud o ran diogelwch i ddysgwyr ifanc deithio yn y ceir gyda seti ceir?" | |
| 6.7.3 | *"Caniateir i blant ddechrau'r ysgol yn dair oed yng Nghymru, ond nid oes rheidrwydd statudol tan bump oed." "A fydd cludiant yn cael ei ddarparu i blant tair oed a rhiant/gwarcheidwad yn y bore ac yna dychwelyd y rhiant/gwarcheidwad adref?" "A fyddai hyn drwy dacsi, a allwch ddarparu costau am hyn?"* | |

| | | |
|---|---|---|
| 6.7.4 | "Oes sicrhad yn cael ei roi y bydd plant oed meithrin sy'n byw yn y pentref yn cael cludiant i sesiynau meithrin Ysgol Talysarn." | |
| 6.7.5 | A fydd seddi diogel, ac oedolyn yn bresennol i sicrhau diogelwch dysgwyr Meithrin a Derbyn? | |

**6.8 Sylwadau cyffredinol am gludiant**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 6.8.1 | "Mae llawer mwy o ysgolion na sydd angen… mae teithio llawer haws heddiw ac nid oes angen cynifer o ysgolion mor agos i'w gilydd." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |

## 7. Y GYMUNED A THEULUOEDD LLEOL

### 7.1 Cysylltiadau teuluol ac aml-genhedlaeth

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 7.1.1 | "Mae ysgol Baladeulyn yn galon y gymuned" "Mae fy nwy ferch wedi mynd trwy addysg yn yr ysgol yn ogystal a fy mam ai chwiorydd." "Roedd fy nain hefyd yn gogyddes yn yr ysgol felly mae ysgol yn golygu llawer." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |
| 7.1.2 | *"Aeth fy nhri plentyn i Baladeulyn." "Ac yn awr mae fy wyrion yno ac maent yn cael yr un gefnogaeth."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |
| 7.1.3 | *"Rwyf wedi byw yn y pentref ers 15 mlynedd ac aeth y ddwy ferch i'r Ysgol, roedd yn ysgol dda iawn i'r bobl leol."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |

### 7.2 Hunaniaeth Gymunedol a Balchder Lleol

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 7.2.1 | Nodir bod dysgwyr yr ysgol yn meithrin balchder yn eu hysgol a'u cymuned fach, mai'r ysgol yw calon y gymuned, yn agos i gartrefi ac yn rhan allweddol iawn o'r ddiwylliant lleol. | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |
| 7.2.2 | Mynegir pryder y byddai symud addysg y plant i bentref arall, yn arwain at golli adnabyddiaeth o'u hardal leol, gan y bydden nhw'n mewn pentref arall pob dydd. | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 7.2.3 | *“Mae gan y plant gysylltiad agos â’r pentref ac â’r Gymraeg a hanes y pentref.”* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw. |

**7.3 Effaith y cynnig ar hyfywedd y gymuned**

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Sylwadau</th><th>Ymateb Cyngor Gwynedd</th></tr>
<tr><td>7.3.1</td><td>“Y canlyniad negyddol mwyaf fydd cau’r ysgol.” “Bydd yn niweidio ein cymuned yn anadferadwy.”</td><td rowspan="3">Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned.<br><br>Ar sail yr uchod, o weithredu’r cynnig, rhagwelir y Cyngor y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai’r asesiad fod cyfran helaeth o’r dysgwyr sy’n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i’r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.<br><br>Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru’r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle’n briodol.<br><br>Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o’r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.<br><br>Yn ogystal, pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.</td></tr>
<tr><td>7.3.2</td><td>Mae’r ysgol yn elfen ganolog o fywyd y pentref, gyda phryder y byddai ei chau’n cael effaith gymunedol sylweddol gan danseilio cynaliadwyedd, bywiogrwydd y gymuned leol.</td></tr>
<tr><td>7.3.3</td><td>Byddai colli’r ysgol yn tanseilio bywyd y pentref.</td></tr>
</table>

### 7.4 Bywyd cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 7.4.1 | *“Fel arfer, mae rhieni, neiniau a theidiau, a thrigolion y pentref sydd yn pasio heibio yn ymuno i sgwrsio a dal fyny.” “Nid ysgol yn unig rydych yn ceisio’i waredu.” “Bydd ymgynnull yn y parc yn dod i ben, a’r trefniadau i gyfarfod ger y llyn i nofio ar ddiwrnodau poeth yn mynd yn anoddach.”* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned.<br><br>Mae’r Cyngor yn cydnabod o fewn yr asesiad y gallai colli’r ysgol gael effaith negyddol ar rai agweddau cymdeithasol a chymunedol lleol. Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio, e.e na fydd rhieni/gwarchodwyr /teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn y gymuned wrth ollwng/casglu plant o’r ysgol. Fodd bynnag, nodai’r asesiad fod cyfran helaeth o’r plant sy’n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i’r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.<br><br>Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru’r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle’n briodol.<br><br>Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o’r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.<br><br>Yn ogystal, pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |

**7.5 Denu teuluoedd ifanc i'r pentref**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 7.5.1 | "Rwyf wedi sylweddoli pa mor bwysig mae ysgolion bychain i'r gymuned." "heb ysgol yn Nantlle, nad yw'n denu teuluoedd newydd." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned.<br><br>Deuir i'r gasgliad gan fod cyfran uchel o ddysgwyr y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o ddysgwyr oed cynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, gan fod ysgol amgen wedi ei lleoli 2.5 filltir o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn annog teuluoedd a phant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned ychwaith. |
| 7.5.2 | "Heb Ysgol yn Nantlle, nad yw'n denu teuluoedd ifanc i'r pentref. O ganlynaid, mae'r pentref yn trawsnewid i bentref digalon." | |

**7.6 Sylwadau ynglŷn a rôl yr ysgol yn y pentref**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 7.6.1 | "Mae angen ysgolion bach gwerthfawr fel y rhain ar ein hardaloedd a fandaliaeth gymdeithasol fyddai ei gwared." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned.<br><br>Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac |
| 7.6.2 | Mynegir y farn bod angen Ysgol Baladeulyn, a bod dysgwyr yr ysgol yn helpu cynnal y pentref. | |
| 7.6.3 | *"Bydd cau'r ysgol yn digalonni'r gymuned."* | |
| 7.6.4 | "Nid oes gan ysgolion ddyletswydd i gynnal cymunedau… symptom o brinder plant mewn cymuned yw gorfod cau ysgol ac nid achos." | |

| | | |
|---|---|---|
| | | felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn.<br><br>I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle'n briodol.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.<br><br>Yn ogystal, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |

**7.7 Effaith ar deuluoedd yn y gymuned**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 7.7.1 | *"Bydd cau Ysgol Baladeulyn yn cael effaith negyddol ar blant, teuluoedd a chymuned Nantlle."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned.<br><br>Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn.<br><br>I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle'n briodol.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.<br><br>Yn ogystal, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 7.7.2 | *"Byddai'n hynod o anodd trefnu gofal plant ar ôl ysgol pe na bai'r plant mewn ysgol yn agos at Nantlle."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |

**8. CAPASITI, DEMOGRAFFEG LLEOL A THREFNIANT DALGYLCHOEDD**

**8.1 Capasiti presennol ac effaith datblygiadau**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 8.1.1 | *"Pe byddai pob disgybl yn cael ei drosglwyddo i Ysgol Talysarn wan, credaf byddai'r Ysgol yn un ddisgybl yn brin o' i gapasiti llawn" "Mae stad newydd o dai yn cael ei ddatblygu ym Mhenygroes, nid yw'n afresymol i feddwl posib fyddai un neu ddau teulu gyda phlant oed cynradd yn symud i fewn." "A yw'r Cyngor yn 100% sicr y bydd digon o gapasiti ar gael yn y dyfodol ar ôl cau Baladeulyn a Nebo?"* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, rhagwelir y byddai capasiti digonol yn Ysgol Talysarn ar gyfer dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sydd yn byw yn nalgylch Baladeulyn, pe byddai'r ysgol yn cau. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.1.2 | *"Mae Ysgolion Bro Lleu a Bro Llifon yn prysur lenwi gyda dosbarthiadau ychwanegol yn cael eu codi ar iard Bro Lleu." "Mae mwy a mwy o dai yn cael eu codi yn ein dyffryn a dyma pryd y bydd angen ein hysgolion bach."* | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ffactorau fel datblygiadau tai yn gallu dylanwadu ar alw yn y dyfodol, a byddai monitro parhaus o gapasiti ysgolion yn parhau fel rhan o drefniadau cynllunio addysg hirdymor y Cyngor. |
| 8.1.3 | "Gydag ysgolion gorlawn y dyffryn onid ydi Ysgolion Baladeulyn a Nebo yn ateb gwych?" "Os am wario ar gludiant i blant, beth am dacsis o Benygroes i Nantlle?" | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw, er hyn mae data cyfredol yr Adran Addysg yn nodi bod capasiti ar hyn o bryd yn holl ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle. Mae canrannau'r llefydd gweigion yn yr ysgolion cyfagos yn amrywio rhwng 9% a 44%, ac felly nid oes unrhyw ysgol yn orlawn ar hyn o bryd.<br><br>Nodir bod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i seilio ar dystiolaeth ehangach sy'n ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys patrymau dewis yn y dalgylch fod y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill.<br><br>Yn unol â Polisi Cludiant Addysg Gwynedd mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu os yw'r llwybr cerdded i'r ysgol yn cael ei ystyried yn rhy beryglus. Nid yw polisi'r Awdurdod yn darparu cludiant i ysgolion y tu hwnt i'r ysgol ddalgylch yn ôl y polisi hwn. |

**8.2 Demograffeg lleol**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 8.2.1 | "Mae cymunedau yn gwerthu allan i ail gartrefi a lletai gwyliau… neu yn gwrthwynebu i ddatblygiadau tai fforddiadwy." | Maer Cyngor yn nodi'r sylw. |
| 8.2.2 | Mae nifer o blant o fewn y pentref yn mynychu ysgolion eraill. | Maer Cyngor yn nodi'r sylw. |
| 8.2.3 | Dylai plant fynychu'r ysgol yn eu pentref eu hunain. | Maer Cyngor yn nodi'r sylw.<br><br>Mae gan rieni hawl i fynegi dewis o ysgol ar gyfer eu plentyn, ac nid oes gofyniad i blant fynychu'r ysgol yn eu pentref nac yn eu dalgylch cartref o reidrwydd. Mae'r Awdurdod yn ystyried pob cais yn unol â'r meini prawf mynediad statudol ac yn dyrannu lleoedd pan fo lle ar gael. Nodir hefyd fod rhieni'n gwneud dewisiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | addysgol yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys profiad personol, anghenion unigol plant, a dewisiadau teuluol. |

**8.3 Trefniant dalgylchoedd**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 8.3.1 | *"Mae'n siom enfawr nad yw'r dalgylch newydd yn cwmpasu'r ardal hon o gysidro ei fod yn un o 21 pentrefi Dyffryn Nantlle." "Mae'n ymddangos nad oes cysondeb gyda'r dalgylchoedd."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Mae dalgylchoedd ysgol yn cael eu diffinio er mwyn gallu cynllunio darpariaeth addysg, lleoedd ac adnoddau'n effeithiol ar draws y Sir. Nid yw'r ffiniau hyn yn seiliedig ar ffiniau cymunedol, ond ar y meini prawf swyddogol sy'n sail i ddyrannu lleoedd a chynnal darpariaeth.<br><br>Mae gan rieni hawl i fynegi dewis o ysgol ar gyfer eu plentyn, ac nid oes gofyniad i blant fynychu'r ysgol yn eu pentref nac yn eu dalgylch cartref o reidrwydd. Mae'r Awdurdod yn ystyried pob cais yn unol â'r meini prawf mynediad statudol ac yn dyrannu lleoedd pan fo lle ar gael. Nodir hefyd fod rhieni'n gwneud dewisiadau addysgol yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys profiad personol, anghenion unigol plant, a dewisiadau teuluol. |
| 8.3.2 | Mynegir siom nad oedd cyfle i rieni gymryd rhan mewn trafodaethau cynnar ynghylch trefniadau derbyn disgyblion pe bai Ysgol Baladeulyn yn cau. Teimlir bod cymryd yn ganiataol y byddai pob plentyn yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn yn annheg o ystyried fod rhai dysgwyr yn byw all-dalgylch ac fe allent fod ag opsiynau amgen. | |

**9. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

**9.1 Dadl yn erbyn y cynnig ar sail cost**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 9.1.1 | Cydnabyddir bod pwysau ariannol yn bodoli ar hyn o'r bryd, ond na ellir mesur gwerth hapusrwydd, lles ac iechyd plentyn. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. |

**9. 2 Anghysondebau Cyllidol a Chost y Pen ar draws Ysgolion y Sir**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 9.2.1 | "Mae'n warthus fod ysgolion sydd â chost y pen o £5-6k yn wynebu trefniadau 'gormodedd' tra bod ysgolion bychan iawn a chost y pen o 3 neu 4 gwaith hynny yn cael eu gwarchod." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |

## 10. SYLWADAU AR Y DDOGFENNAETH YMGYNGHORI A'R BROSES STATUDOL

### 10.1 Digonolrwydd asesiadau effaith yn gyffredinol

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 10.1.1 | "Nid yw'r asesiad effaith na'r asesiad ar effaith ar y gymuded yn y dyfodol yn ddigonol." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Fel rhan o'r broses statudol, cyhoeddwyd Asesiad Effaith Cymunedol gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion. Yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Cymunedol, gan gryfhau'r cydnabyddiaeth fod colli'r ysgol yn debygol o arwain at effaith negyddol ar y gymuned leol.<br><br>Ar yr un pryd, mae'r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig hefyd yn nodi bod canran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y pryderon a fynegwyd fod presenoldeb yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal hunaniaeth Gymreig a defnydd dyddiol o'r Gymraeg.<br><br>Mae'r asesiad diwygiedig yn nodi, pe byddai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu, y byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Baladeulyn a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo'n briodol, a defnyddio Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod fel fframwaith ar gyfer trafod opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n ymarferol. |
| 10.1.2 | *"Hoffwn yn fawr i'r Cyngor ystyried y plant gan mai nhw fyddai'n dioddef."* | Nodir bod y Ddogfen Ymgynghori yn nodi'n glir y gofyniad i ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hymgorffori drwy gynnal cyfres o asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys Asesiad Effaith Llesiant, Asesiad Effaith Cymunedol, Asesiad Effaith Ieithyddol, Asesiad Effaith Addysgol ac Asesiad Effaith Trafnidiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r asesiadau effaith hyn yn ystyried ystod eang o ffactorau, gan gynnwys effaith ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith bosibl cau ysgol ar gymuned wledig a'r ystyriaethau ehangach sy'n ymwneud â llesiant plant. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth adolygu'r asesiadau effaith perthnasol. |

**10.2 Asesiad Effaith ar y Gymuned**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 10.2.1 | *"Rhieni sengl neu'r diffyg gwaith yn yr ardal hon."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Fel rhan o'r broses statudol, cyhoeddwyd Asesiad Effaith Cymunedol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion.<br><br>O fewn yr asesiad hwn, cyfeirir at wybodaeth yr economi ac amddifadedd y ward lleol, sydd yn darparu cyd-destun ynghylch sefyllfa gyflogaeth a chyflwr economaidd-gymdeithasol yr ardal<br>yr ardal:<br><br>*Yn Cyfrifiad 2021, mae 55.5% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanllyfni yn weithgar yn economaidd, a 3.7% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 43.2% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 5.9% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.*<br><br>*Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (19.9%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol (Cyfrifiad 2021).*<br><br>*Yn ôl data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025) mae cyfradd cyflogaeth ward Llanllyfni a Chlynnog o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1152 allan o 1917 o wardiau. Felly, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru.*<br><br>*Mae ward Llanllyfni a Chlynnog wedi'w raddio o fewn y 20%-30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 546 allan o 1917 o wardiau).* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai. Nodir fod ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.*<br><br>*Yn ogystal, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.* |
| 10.2.2 | *"Mae Talysarn yn 'ardal ddifreintiedig'; bydd costau teithio ychwanegol… yn cael effaith niweidiol ar incwm aelwydydd."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r galwad am eglurder a sicrwydd ynghylch trefniadau a goblygiadau costau cludiant pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. O dan y Polisi, darperir cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch neu'r ysgol agosaf, neu lle bo'r llwybr cerdded yn cael ei asesu'n anniogel. Nid yw dysgwyr Meithrin yn gymwys o dan y polisi, ac nid yw'r polisi'n rhagdybio bod rhieni'n gyfrifol am ddarparu cludiant lle bo plentyn yn gymwys am gludiant statudol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd. |
| 10.2.3 | Mynegir pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negatif ar deuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol. | Nodir bod y Ddogfen Ymgynghori yn nodi'n glir y gofyniad i ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hymgorffori drwy gynnal cyfres o asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys Asesiad Effaith Llesiant, Asesiad Effaith Cymunedol, Asesiad Effaith Ieithyddol, Asesiad Effaith Addysgol ac Asesiad Effaith Trafnidiaeth.<br><br>Nodir bod y materion hyn wedi'u cofnodi a'u hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant, sydd wedi'u diweddaru yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol. Mae'r asesiadau hyn yn ystyried ystod eang o ffactorau perthnasol, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol, effaith ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | gydlyniant cymunedol, newidiadau demograffig, a chynaliadwyedd yn y tymor canolig a hir. |

**10.3 Asesiad Effaith ar y Gymraeg**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 10.3.1 | "Mae canlyniadau hunan gyflenwol yr asesiad effaith ar y Gymraeg yn gywilyddus." "nid oes unrhyw ymgais wedi'i wneud gan y Cyngor i asesu effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg yn ardal." | Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol, gyda'r materion a godwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried wrth lunio'r asesiad diwygiedig.<br><br>Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.<br><br>Cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan roi ystyriaeth briodol i'r sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai, gan gynnwys pryderon ynghylch colli'r ysgol fel canolbwynt cymunedol.<br><br>Fel y nodir yn y casgliad yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned diweddaraf, barn y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned leol pe bai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu. Mae hefyd wedi'i ffurfio ar sail y dystiolaeth ehangach a aseswyd yn yr asesiad.<br><br>Mae'r asesiad diwygiedig yn nodi bod rhywfaint o risg ieithyddol bosibl o safbwynt defnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw yn Baladeulyn pe byddai'r ysgol yn cau, ond nodir hefyd fesurau lliniaru posibl, gan gynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| | | ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol i gefnogi'r Gymraeg, a hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nantlle mewn gweithgareddau Cymraeg yn Ysgol Talysarn. |
| 10.3.2 | "Nid oes chwaith unrhyw asesiad effaith ar anfon plant o deuluoedd digymraeg Nantlle i ysgolion fwy Cymraeg." | Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref.<br><br>Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |
| 10.3.3 | "Nid oes unrhyw ymgais i weld yr effaith hir dymor mae cau ysgolion gweledig yn cael ar yr iaith yn gyffredinol." "Mae'r canlyniadau i weld yn ffocysu ar effaith ar ddisgyblion presennol yn unig (plant 4 - 11)." | Fel a nodir uchod. Ymateb y Cyngor yn 10.3.1 a 10.3.2. |

**10.4 Ymgysylltu a chyfathrebu gyda rhieni fel rhan o' r broses statudol**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 10.4.1 | Mynegir y farn y byddai mwy o ymgysylltu â rhieni, gan gynnwys ymweliadau â'r cylch meithrin a rhoi gwybodaeth glir am opsiynau addysgol, wedi bod yn fuddiol. Nodir bod rhai rhieni yn y pentref wedi cymryd yn ganiataol bod mynychu cylch meithrin Talysarn yn golygu bod rhaid mynychu'r ysgol gysylltiedig. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Mae'r broses ymgynghori statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Er nad yw cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn ofyniad statudol, cynhaliwyd sesiynau galw heibio i rieni, staff a llywodraethwyr fel rhan o'r broses ymgysylltu i roi cyfle i drafod y cynnig a'r broses statudol. |

**10.5 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 10.5.1 | Rwy'n cwestiynu os yw'r effaith ar blant anabl wedi'i hasesu'n llawn, a pha mor ddigonol yw'r ystyriaeth sydd wedi ei roi i hawliau plant anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o fewn yr asesiad effaith. | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nodir bod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol er mwyn rhoi sylw penodol i'r pryderon a godwyd ynghylch dysgwyr anabl a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r asesiad diwygiedig yn cydnabod y gallai'r cynnig arwain at effaith negyddol bosibl ar rai dysgwyr anabl, yn enwedig mewn perthynas â throsglwyddo i ysgol fwy ac anghyfarwydd, ac mae'r risgiau hyn wedi'u nodi'n glir.<br><br>Mae'r Asesiad hefyd yn nodi'r dyletswyddau statudol, gan nodi bod gan bob dysgwr ag ADY hawl i barhau i dderbyn y ddarpariaeth a nodir yn ei Gynllun Datblygu Unigol, waeth beth fo unrhyw newid mewn trefniadau ysgol.<br><br>Nodir ymhellach y byddai, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, trefniadau pontio yn cael eu cynllunio a'u gweithredu ar y cyd â'r dysgwyr, eu teuluoedd a'r ysgol dderbyn, gyda ffocws penodol ar anghenion unigol pob dysgwr. Byddai hygyrchedd yr ysgol amgen, ynghyd â threfniadau cludiant addas, hefyd yn cael eu hasesu'n unigol er mwyn sicrhau nad yw plant anabl dan anfantais anghymesur o ganlyniad i'r cynnig.<br><br>Ar sail ystyriaeth o'r dystiolaeth, y sylwadau a dderbyniwyd, a'r mesurau lliniaru a nodir, asesiad y Cyngor yw bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i effaith y cynnig ar y nodweddion perthnasol, gan gynnwys Anabledd yn unol a gofynion Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn nodi'n glir y risgiau posibl, yn amlinellu'r dyletswyddau statudol perthnasol, ac yn cadarnhau y byddai'r effaith ar ddysgwyr anabl yn parhau i gael ei monitro a'i rheoli'n ofalus pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |

**11. OPSIYNAU AMGEN**

**11.1 Cadw'r ysgol ar agor (status quo)**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 11.1.1 | "Dim cau lawr" | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y safbwyntiau hyn – sef parhau gyda'r ddarpariaeth bresennol drwy gadw'r ysgol ar agor – eisoes wedi'i ystyried fel rhan o'r opsiynau gwreiddiol, ac yn benodol fel yr opsiwn "gwneud dim" |
| 11.1.2 | Eisiau'r teulu i barhau i dderbyn addysg yn yr ysgol leol bresennol. | |
| 11.1.3 | "toes dim cynig gwerh chweil, ddim ond i gadw yr ysgol ar agor!!!"<br>"dim, eto ddim ond i gadw yr ysgol ar agor, gymaint o fantais i bawb!" | |

| | | |
|---|---|---|
| | | (Opsiwn 1). Mae'r opsiwn hwn wedi'i asesu'n llawn yn erbyn meini prawf y Cod Trefniadaeth Ysgolion, ochr yn ochr â'r opsiynau amgen rhesymol eraill a nodir yr adran hon.<br><br>Fel y nodir yng nghasgliad yr asesiad, er bod y Cyngor yn cydnabod y gefnogaeth a fynegir i gadw'r ysgol ar agor, deuir i'r casgliad nad yw parhau â'r trefniadau presennol, ar ei ben ei hun, yn ymateb digonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, y lefel uchel o lefydd gweigion, y rhagolygon niferoedd yn y dyfodol, a'r heriau ariannol cysylltiedig. O ganlyniad, nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei drin fel opsiwn amgen newydd nac yn destun asesiad pellach ar wahân o fewn yr adroddiad hwn. |

**11.2 Hyrwyddo a chryfhau ysgolion bach**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 11.2.1 | "Ydi mae niferoedd yn isel ar hyn o bryd ond gall hyn newid o fewn blwyddyn neu ddwy gyda'r hyrwyddo cywir." "Yn hytrach na tanseilio ein hysgolion bach ond yn hytrach hyrwyddo manteision a chryfderau ein hysgolion pwysig gwledig." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau sy'n awgrymu i hyrwyddo derbyniadau newydd drwy bwysleisio manteision yr ysgol. Fodd bynnag, nodir nad yw mentrau hyrwyddo o'r fath, ar eu pen eu hunain, o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor i'w gweithredu mewn ffordd a fyddai'n sicrhau newid ystyrlon i batrymau dewis rhieni na chynnydd gwarantedig mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig, gan fod y penderfyniad terfynol ynghylch dewis ysgol yn parhau'n fater i rieni, yn unol â'r fframwaith statudol. |
| 11.2.2 | "Mae hi'n holl bwysig i ni gael y cyfle i hyrwyddo yr ysgol." "Byddai'n fanteisiol iawn cyflwyno rhieni newydd i'r ardal i'r Ysgol gan gynnig diwrnod agored." "Mae sawl tŷ cymunedol wedi cael eu rhoi ar rent yn ddiweddar yn Nantlle." "Gan nad oes gan sawl un y profiad o fod yn agos i'r ysgol o'r blaen." | |
| 11.2.3 | *"Gallai'r Cyngor annog mwy o deuluoedd i ddefnyddio ysgolion llai" "Yn hytrach na'u gwthio i ysgolion eraill sy'n orlawn ac yn ei chael hi'n anodd darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i bob plentyn."* | |
| 11.2.4 | "Mae'r ysgol feithrin yn Nhalysarn yn denu plant i ysgol Dalysarn." "teimlaf ei fod yn hanfodol annog rhieni i yrru eu plant i ysgol fychain fel Ysgol Baladeulyn." | |

**11.3 Ffederaleiddio gyda darpariaeth ADY**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 11.3.1 | "a'n ffafrio'r opsiwn amgen – '3. Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn'" | Ceir manylion llawn yr asesiad ar yr opsiwn hwn yn Adran 7 o'r adroddiad. |
| 11.3.2 | "Mae'r Corff yn ffafrio'r trydydd opsiwn, sef 'Ffedarlaeiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) gan ychwanegu ardal arbenigolar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn." | |
| 11.3.3 | Awgrymu y dylid ystyried cyfuno opsiynau 3 a 6 yr ymgynghoriad, sef ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn ynghyd ag ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer darpariaeth ADY yn Ysgol Baladeulyn. Nodai byddai cefnogaeth gan Ysgol Talysarn yn gadarnhaol. | |

**11.4 Rhannu arweinyddiaeth**

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 11.4.1 | *"A fyddai'n synhwyrol o leiaf ystyried ad-drefnu'r ysgolion yn un ysgol aml-safle" "Gydag un pennaeth a dirprwy bennaeth i'r safleoedd. Byddai hyn yn sicrhau bydd capasiti ychwanegol ar gael"* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau sy'n awgrymu y dylid ystyried opsiynau amgen i gau Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys cynyddu cydweithio â ysgolion cyfagos drwy uno gyda ysgolion eraill, a sefydlu ysgol aml safle.<br><br>Mae'r opsiwn i uno/sefydlu ysgol aml-safle eisoes wedi derbyn ystyriaeth fel opsiwn amgen o fewn y ddogfen ymgynghori. Ceir manylion pellach am yr asesiad o'r opsiwn hwn yn Adran 7 o'r adroddiad.<br><br>Yn dilyn gwerthuso'r opsiwn, deuir i'r casgliad nad yw'r model yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn. Nid oes tystiolaeth y byddai'r trefniant yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at newid yn y patrwm presennol o lefydd gweigion uchel. O ganlyniad, byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd isel, a'r heriau ariannol cysylltiedig yn parhau, heb sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. |
| 11.4.2 | "cadw'r ysgol ar agor a gweithio yn agosach gyda ysgolion mwy" | |
| 11.4.3 | "Mae angen gweithio efo ysgolion eraill i sicrhau fod plant yn cael yr addysg gorau posib, yn lle canolbwyntio ar stwffio 30 mewn dosbarth." | |

### 11.5 Addasu'r cynnig er budd y Gymraeg

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 11.5.1 | "Byddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg." "drwy gynnal darpariaeth gymunedol Gymraeg yn safle'r ysgol, megis canolfan gymunedol, cylch meithrin neu ganolfan iaith" | Mae'r Cyngor yn nodi bod awgrymiadau o'r math hwn wedi'u hystyried eisoes yn unol â Chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Daethpwyd i'r casgliad yn y papur cynnig a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, ac fe'i cadarnhawyd yn y Ddogfen Ymgynghori ddilynol, nad yw defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol nac addasu'r safle i gynnal darpariaeth gymunedol yn cynnig datrysiad cynaliadwy i'r heriau addysgol craidd sy'n wynebu'r ysgol, ac felly ni ystyrir yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol.<br><br>Mae Opsiwn 7 yr ymgynghoriad 'Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn' yn cyfeirio at ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd. Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned/canolfan iaith, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.<br><br>Er hynny, mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 ddysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yr uned/ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Baladeulyn yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu.<br><br>Ceir manylion llawn yr opsiynau yn Adran 7 o'r adroddiad. |
| 11.5.2 | "Byddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg." "Drwy gynnal darpariaeth gymunedol Gymraeg yn safle'r ysgol - megis canolfan gymunedol, cylch meithrin neu ganolfan iaith." | |
| 11.5.3 | Awgrymir y gellid addasu'r cynnig i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol neu lai andwyol ar y Gymraeg, gan gynnwys cynnal darpariaeth gymunedol Gymraeg ar safle'r ysgol e.e. Canolfan Gymunedol, Cylch Meithrin, Ganolfan Iaith neu gysidro opsiwn amgen o'r ymgynghoriad yn hytrach na gau'r ysgol. | |
| 11.5.4 | "Byddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg" "drwy gynnal darpariaeth gymunedol Gymraeg yn safle'r ysgol, megis canolfan gymunedol, cylch meithrin neu ganolfan iaith." | |

### 11.6 Darpariaeth arbenigol ADY

| Cyf | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| 11.6.1 | *"Creu ysgol cynradd 'Hybrid' prif ffrwd ac AAA ar ffin Dwyfor/Arfon"*<br>*"Arbedion cost posibl ar drafnidiaeth ysgol, gwelliant yn nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion ag AAA, a'r gallu i gael mynediad at gyllid* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. |

| | | |
|---|---|---|
| | *AAA ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliad addysgol llai.”* | Yn y cyd-destun hwn, ystyrir y cynnig i ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd ‘hybrid’ prif-ffrwd yn opsiwn amgen rhesymol, ac o ganlyniad mae wedi’i gynnwys fel opsiwn amgen rhesymol yn yr adroddiad hwn ac mae’n destun asesiad pellach yn yr adroddiad hwn.<br><br>Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso’r opsiwn hwn, deuir i’r casgliad nad yw ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd ‘hybrid’ prif-ffrwd yn cynnig ateb i’r heriau craidd sy’n wynebu’r ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg ar hyn o bryd y byddai’r cynnig yn arwain at gynnydd digonol a chynaliadwy mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig.<br><br>Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned ADY. |
| 11.6.2 | Awgrymaf y dylid ystyried newid defnydd yr ysgol i ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol. | |
| 11.6.3 | darparu cefnogaeth i blant lleol ag anghenion dysgu uwch a fydd angen addysg 1 i 1… ysgol fach yn leoliad lle gallai plant sydd angen ychydig o gymorth ychwanegol ffynnu. | |
| 11.6.4 | Dylai’r Cyngor ystyried datblygu Ysgol Baladeulyn yn ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag ADY, er mwyn darparu mwy o leoedd i blant sydd angen cefnogaeth. | |

**11.7 Opsiynau amgen eraill derbyniwyd**

| **Cyf** | **Sylwadau** | **Ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|
| 11.7.1 | *“Gallent dalu ychydig yn ychwanegol am gludiant i’r plant fel na fyddai’r ysgol fawr yn gorlenwi a bod yr ysgolion llai’n gallu cefnogi’r plant.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd sy’n awgrymu y dylid ystyried defnyddio Ysgol Baladeulyn fel safle i amgen mewn ymateb I’r ysgolion cyfagos sy’n gweithredu dros gapasiti neu’n wynebu gorlenwi, gan gynnwys awgrymiadau i ddarparu cludiant am ddim i’r dysgywr rheini fyddai’n mynychu Ysgol Baladeulyn.<br><br>Fodd bynnag, nid yw’r Cyngor o’r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol. Byddai gweithredu model o’r fath yn codi cymhlethdodau sylweddol mewn perthynas â threfniadau derbyn a chludiant.<br>Yn ogystal, ni ragwelir y byddai’r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrlon yn niferoedd Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad, deuir i’r casgliad nad yw’r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac felly nid yw’n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| 11.7.2 | "Cynnig i blant stadau newydd Penygroes ymuno ag ysgolion llai y dalgylch - h.y. Ysgol Baladeulyn" "os oes achlysur pan mae ysgol yn gorfod gwrthod dysgwyr oherwydd diffyg lle, cynnig iddynt ymuno ag ysgolion llai y dalgylch - h.y. Ysgol Baladeulyn." | Fel uchod. |
| 11.7.3 | *"Ceisio cael mwy o bobl leol i fyw yn eiddo Nantlle yn hytrach nag AirBnBs neu dai gwyliau."* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw a wnaed ynghylch yr angen i annog mwy o bobl leol i fyw yn eiddo yn ardal Nantlle yn hytrach nag mewn llety gwyliau neu eiddo AirBnB.<br><br>Fodd bynnag, nodir fod materion yn ymwneud â pholisi tai a'r defnydd o eiddo preswyl y tu allan i gylch gorchwyl y cynnig presennol. Yn y cyd-destun hwn, ni ystyrir bod yr awgrym yn opsiwn amgen rhesymol o fewn fframwaith y broses ymgynghori statudol ar drefniadaeth ysgolion. |
| 11.7.4 | "Newid mewn polisi yng Nghymru fyddai'n golygu bod pob plentyn yn gorfod mynychu ei ysgol agosaf." | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.<br><br>Mae'r opsiwn yma yn ymwneud â newid polisi cenedlaethol O ganlyniad, ni fydd yn cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, a ni fydd yn destun asesiad neu ystyriaeth pellach. |
| 11.7.5 | *"Ceisio am fynediad i gyllid UNESCO – gweler Adroddiad Richard Hayman ar arwyddocâd Ysgol Baladeulyn yn y diwydiant llechi… neu cyllid treftadaeth y Loteri Genedlaethol (National Lottery Heritage Funding)"* | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau.<br><br>Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau addysg a threftadaeth y Sir. Fodd bynnag, nid yw cyllid cyfalaf ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn. Er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r ysgol, byddai angen cyllid refeniw sefydlog a pharhaus. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac felly nid yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. |
| 11.7.6 | *"Dylai Cyngor Gwynedd ymgynghori a chynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cael mynediad at y cyllid ychwanegol o £3 miliwn i adeiladu / ehangu darpariaeth AAA, er mwyn gwrthbwyso'r costau rhedeg."* | |

## 6. OPSIYNAU AMGEN ERAILL A GYNIGIWYD GAN YMGYNGHORAI

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, rhoddwyd cyfle i ymgynghorai gyflwyno opsiynau amgen yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r opsiynau ychwanegol a awgrymwyd gan yr ymgynghorai, ac yn nodi'r rhai a ystyrir yn opsiynau amgen rhesymol sy'n destun asesiad pellach yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys gwerthusiad opsiynau ac asesiad yn erbyn y ffactorau rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

| | Opsiwn | Ystyriaeth Gychwynnol |
|---|---|---|
| **11.1** | **Cadw'r ysgol ar agor (status quo)** | Ystyrir yr opsiwn hwn fel yr opsiwn "dim newid", sef parhau gyda'r ddarpariaeth bresennol drwy gadw Ysgol Baladeulyn ar agor. Mae'r opsiwn hwn eisoes wedi'i ystyried fel un o'r opsiynau gwreiddiol ac wedi'i asesu'n llawn fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, ac fe'i ystyrir ymhellach o dan Opsiwn 1 – Dim newid. O ganlyniad, nid yw'r opsiwn yma yn cael ei drin fel opsiwn amgen ar wahân, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar ei ben ei hun o fewn yr adroddiad hwn. |
| **11.2** | **Hyrwyddo manteision a chryfderau ysgolion bach i rieni newydd, gan gynnig diwrnod agored i gyflwyno rhieni newydd i'r Ysgol.** | Nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol gan nad yw'n cyd fynd gyda strategaeth ysgolion. Mae'r Cyngor yn ymgeisio i roi cefnogaeth briodol i bob ysgol, ond nid oes modd hyrwyddo ysgolion penodol. Byddai hefyd yn codi cymhlethdodau mewn perthynas â threfniadau derbyn a chludiant.<br><br>O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac nad yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. |
| **11.3** | **Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn.** | Mae'r opsiwn yma'n cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 3 gwreiddiol, sef ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad, nid yw'n cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar wahân i'r opsiwn gwreiddiol. |
| **11.4** | **Rhannu arweinyddiaeth trwy drefniant ysgol aml-safle.** | Mae'r opsiwn yma'n cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 5 gwreiddiol, sef uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle. O ganlyniad, nid yw'n cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar wahân i'r opsiwn gwreiddiol. |
| **11.4** | **Cydweithio agosach rhwng Ysgol Baladeulyn ac ysgolion cyfagos.** | Mae trefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng Ysgol Baladeulyn ac ysgolion cyfagos wedi'u cynnwys o fewn yr ystyriaethau ehangach sy'n gysylltiedig â'r model ffedereiddio. O ganlyniad, ystyrir y trefniadau hyn fel elfen o'r model ffederaleiddio, yn hytrach nag fel opsiwn amgen annibynnol, ac felly nid yw'r opsiwn yma yn destun asesiad ar wahân o fewn yr adroddiad yma. |

| | | |
|---|---|---|
| **11.5** | **Addasu'r cynnig er budd y Gymraeg trwy gynnal darpariaeth cymunedol yn safle'r ysgol, megis canolfan gymunedol, Cylch Meithrin neu ganolfan iaith.** | Mae'r Cyngor yn nodi bod awgrymiadau o'r math hwn wedi'u hystyried eisoes yn unol â Chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Daethpwyd i'r casgliad yn y papur cynnig a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, ac fe'i cadarnhawyd yn y Ddogfen Ymgynghori ddilynol, nad yw defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol nac addasu'r safle i gynnal darpariaeth gymunedol yn cynnig datrysiad cynaliadwy i'r heriau addysgol craidd sy'n wynebu'r ysgol.<br>Yn benodol, nodwyd na fyddai opsiynau o'r fath yn mynd i'r afael â niferoedd isel parhaus o ddysgwyr, maint dosbarthiadau bychain, na'r goblygiadau cysylltiedig ar gynaliadwyedd ariannol a darpariaeth addysgol yr ysgol fel ysgol gynradd statudol. Er y cydnabyddir gwerth darpariaeth gymunedol a mentrau i hyrwyddo'r Gymraeg, nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig ateb hyfyw i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, ac felly nid yw'n cael ei ystyried yn opsiwn amgen rhesymol nac yn destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. |
| **11.6** | **Darpariaeth 'hybrid' prif lif a darpariaeth arbenigol ADY** | Mae opsiwn yma yn ymwneud â chryfhau a/neu ehangu ffocws darpariaeth gysylltiedig ag ADY. Er bod darpariaeth ADY eisoes wedi'i hystyried fel rhan o'r opsiynau gwreiddiol, mae'r opsiwn yma yn cyfeirio at sefydlu addysg 'hybrid' prif lif a darpariaeth arbenigol ADY. O ganlyniad, caiff yr opsiwn yma ei gynnwys fel opsiwn ychwanegol ar wahân, yn hytrach nag amrywiad uniongyrchol ar yr opsiwn ADY gwreiddiol, ac felly mae'n destun asesiad pellach. |
| **11.6** | **Ysgol Baladeulyn i gynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ADY** | Mae'r opsiwn yma'n cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 6 gwreiddiol, sef ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad, nid yw'n cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar wahân i'r opsiwn gwreiddiol. |
| **11.7** | **Defnyddio Ysgol Baladeulyn fel darpariaeth ategol i leihau pwysau ar ysgolion cyfagos, a'r Cyngor yn buddsoddi mewn cludiant.** | Nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol. Byddai gweithredu model o'r fath yn arwain at newid sylweddol yn rôl a natur Ysgol Baladeulyn, gan ei droi o ysgol gymunedol brif ffrwd yn ddarpariaeth ran amser neu ategol heb sylfaen glir o ran trefniadaeth, llywodraethu na pherthyn i gymuned ysgol benodol. Byddai hefyd yn codi cymhlethdodau sylweddol mewn perthynas â threfniadau derbyn, cludiant, lles dysgwyr a pharhad profiad addysgol, yn enwedig i ddysgwyr iau.<br><br>Yn ogystal, nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn o ran niferoedd dysgwyr, cynaliadwyedd tymor hir a darpariaeth addysgol gydlynol. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac nad yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **11.7** | **Newid polisi ar lefel cenedlaethol a fyddai'n golygu bod pob plentyn yn mynychu ei ysgol lleol.** | Nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol gan fod yr opsiwn hwn yn ymwneud â newid polisi cenedlaethol mynediad i ysgolion. O ganlyniad, ni fydd yn cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, a ni fydd yn destun asesiad neu ystyriaeth pellach. |

## 7. ASESIAD PELLACH O'R CYNNIG A'R OPSIYNAU RHESYMOL ERAILL

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, a gan fod Ysgol Baladeulyn yn bodloni'r diffiniad o ysgol wledig, cynhaliwyd asesiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol amgen a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, gan roi sylw penodol i'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, yr effaith debygol ar y gymuned, ac effaith trefniadau teithio gwahanol.

Wrth gynnal yr asesiad pellach hwn, ystyriwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol a ddaeth i law drwy'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, neu fel arall, yn unol â bwriad y Cod i sicrhau bod safbwyntiau a gwybodaeth newydd yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

Er bod y sylwadau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad – gan gynnwys opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorwyr – wedi'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu hon, ni arweiniodd yr wybodaeth ychwanegol at newid i gasgliad unrhyw un o'r asesiadau effaith mewn perthynas â'r cynnig nac â'r opsiynau rhesymol amgen.

Mae'r ddau dabl isod yn nodi'r asesiad pellach o'r effaith a ragwelir: mae'r tabl cyntaf yn crynhoi asesiad y cynnig a'r opsiynau rhesymol amgen a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, tra bod yr ail dabl yn nodi asesiad effaith yr opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r asesiadau effaith llawn ar gael yn Atodiad C.

| Opsiwn | Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg | Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio | Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1 - Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol** | Niwtral – Dim newid | Niwtral – Dim newid<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral – Dim newid<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |
| **Opsiwn 2 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)** | Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral<br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen | Niwtral<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | teithio pellter afresymol i'r ysgol. | |
| **Opsiwn 3 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn** | Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol' | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. | Niwtral<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y ddwy ysgol.<br><br>Cadw'r ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |
| **Opsiwn 4 - Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)** | Rhannol bositif<br><br>Nodai'r asesiad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Talysarn yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn Ysgol Talysarn. | Negyddol<br><br>Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.<br><br>Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost, £17,000-£30,000 y flwyddyn.<br><br>Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral/Rhannol Negyddol<br><br>Arwain at golli ysgol ac adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.<br><br>I liniaru'r effaith ar y gymuned, nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nantlle yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Nantlle, lle'n briodol.<br><br>Nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes. |
| **Opsiwn 5 - Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle** | Niwtral / Rhannol bositif<br><br>Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r | Niwtral<br><br>Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfle i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y byddai angen trefnu cludiant rhwng ysgolion. | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |
| **Opsiwn 6 - Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn** | Niwtral/Rhannol bositif<br><br>Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol' | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral – Dim newid i'r ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |
| **Opsiwn 7 - Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn** | Niwtral - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i ddarparu gwasanaeth penodol ar gyfer hwyrddyfodiaid mewn Canolfan Iaith ar safle'r ysgol. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith. | Niwtral – Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |

**Asesiad o'r opsiynau rhesymol eraill a awgrymwyd gan ymgynghorai:**

| Opsiwn | Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg | Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio | Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned |
|---|---|---|---|
| **11.6 Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif-ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol** | Niwtral/ Rhannol bositif<br><br>Dim effaith ar y ddarpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Cyfle i gynnig darpariaeth arbenigol 'hybrid' i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol' a 'Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)' | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr prif ffrwd yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr prif ffrwd yn parhau yn yr un modd.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr newydd sydd yn cofrestru am ddarpariaeth 'hybrid' prif ffrwd ac ADY.<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol | Niwtral<br><br>Cadw ysgol prif ffrwd a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. |

**Gwerthusiad o'r opsiynau:**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynhaliodd yr Awdurdod werthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen a gynhwyswyd yn y papur cynnig gwreiddiol, ynghyd â gwerthusiad o'r opsiynau amgen rhesymol ychwanegol a nodwyd gan ymgynghorai, gan ddefnyddio'r un fframwaith asesu ag a ddefnyddiwyd ar gyfer yr opsiynau gwreiddiol. Ceir cymhariaeth fanwl o'r holl opsiynau yn Atodiad B – Gwerthusiad Opsiynau, ac mae'r tabl isod yn crynhoi prif gasgliadau'r gwerthusiad ac yn egluro'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r opsiwn amgen.

| Opsiwn | Rhesymau dros wrthod yr opsiwn |
|---|---|
| **Opsiwn 1 - Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol** | Yn dilyn asesiad, deuir i'r casgliad nad yw parhau gyda'r sefyllfa bresennol yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, un dosbarth gydag amrediad oedran eang, rhagolygon niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig datrysiad i newid unrhyw un o'r ffactorau hyn, ac felly ni chaiff ei ystyried yn ddewis rhesymol i sicrhau darpariaeth gynradd gynaliadwy yn y tymor canolig na'r tymor hir. |

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 2- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)** | Ystyrir nad yw ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn. Nid oes tystiolaeth y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau. Yn ogystal, byddai'r rhagolygon niferoedd isel a'r patrwm presennol o ddewis dysgwyr y dalgylch heb eu newid, gyda'r heriau ariannol a chostau fesul dysgwr uchel yn parhau. |
| **Opsiwn 3 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn** | Er bod darpariaeth arbenigol ADY yn bwysig yn strategol, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd leol. Byddai dysgwyr y ddarpariaeth arbenigol yn parhau i gael eu cofrestru yn eu hysgolion gwreiddiol, ac felly ni fyddai'r opsiwn yn cynyddu niferoedd cofrestredig yr ysgol nac yn lleihau'r lefel uchel o lefydd gweigion. O ganlyniad, byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach, yr amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau, heb ddarparu ateb cynaliadwy i'r sefyllfa bresennol. |
| **Opsiwn 4 - Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos** | *Noder: Dyma'r opsiwn ffafredig a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad statudol.* |
| **Opsiwn 5 - Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn** | Ystyrir nad yw'r model yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn. Nid oes tystiolaeth y byddai'r trefniant yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at newid yn y patrwm presennol o lefydd gweigion uchel. O ganlyniad, byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd isel, a'r heriau ariannol cysylltiedig yn parhau, heb sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. |
| **Opsiwn 6 - Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn** | Er bod darpariaeth arbenigol ADY yn bwysig yn strategol, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn ymateb i'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd gymunedol. Ni fyddai sefydlu uned arbenigol yn cynyddu'r niferoedd cofrestredig yn y ddarpariaeth brif ffrwd nac yn lleihau'r lefel uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, yr amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau, heb ddarparu ateb cynaliadwy i'r sefyllfa bresennol. |
| **Opsiwn 7 – Cynnwys Uned Iaith ar safle Ysgol Baladeulyn** | Yn dilyn asesiad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig ateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn. Er y gallai canolfan iaith ddefnyddio'r safle'n rhannol, byddai dysgwyr y ganolfan yn parhau i gael eu cofrestru yn eu hysgolion gwreiddiol, ac felly ni fyddai'r opsiwn yn cynyddu niferoedd cofrestredig yr ysgol. O ganlyniad, byddai'r lefel uchel o lefydd gweigion, y dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau heb gael eu cyfarch. |
| **Opsiynau a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad:** | |
| **Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif-ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol** | Byddai'r opsiwn yma yn golygu ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol. Byddai'r opsiwn hyn yn cynnig addysg hybrid i ddysgwyr cynradd yn yr ardal leol i fynychu Ysgol Baladeulyn fel ysgol prif ffrwd a/neu gyda mynediad i ddarpariaeth addysg arbenigol ADY. |

| | |
|---|---|
| | Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr ardal arbenigol, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.<br><br>Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 2 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr sydd yn cael mynediad i ddarpariaeth addysg arbennig yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol yn effeithio ar y niferoedd. |

## 8. YSTYRIAETHAU PELLACH

Yn ogystal ag asesiadau effaith a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau penodol 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig' cynhaliwyd a diweddarwyd nifer o asesiadau effaith eraill yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Cynhwysir yr asesiadau hyn fel rhan o'r atodiad Asesiadau Effaith (Atodiad C) a chrynhoir eu casgliadau isod.

**a.** Asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Baladeulyn ei chael ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref. Pwysleisiodd yr ymatebwyr ar rôl bwysig yr ysgol wrth integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r ecosystem ieithyddol leol, gan arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol disgyblion, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn.
- Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nantlle yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nantlle ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o

safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol Ysgol Talysarn, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

**b.** <u>Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb</u>

Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried, ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

Fel y nodir yn yr asesiad diweddaraf, yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd rhai pryderon penodol o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig ynghylch plant bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a theuluoedd sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mynegwyd pryder y gallai symud rhai dysgwyr i ysgol fwy leihau'r lefel o gefnogaeth bersonol sydd ar gael iddynt, ac y gallai pellter teithio, costau cludiant neu ddiffyg mynediad at gludiant preifat effeithio'n anghymesur ar rai teuluoedd. Nodwyd hefyd y gallai colli'r ysgol danseilio'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned.

Nodir yn yr asesiad fod y Cyngor yn cydnabod y materion a godwyd ac yn pwysleisio bod polisïau cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol yn y ddarpariaeth bresennol ac yn Ysgol Talysarn. At hynny, nodir fod Cyngor yn ymrwymo i roi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau. O ran y pryderon ynghylch defnydd cymunedol o'r Gymraeg, nodir y byddai mesurau lliniaru yn cael eu hystyried, gan gynnwys hyrwyddo cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen drwy weithgareddau cymunedol, a thrwy ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnyddio adeilad yr ysgol er mwyn cefnogi defnydd parhaus o'r Gymraeg yn y gymuned leol.

Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi nodi effaith negyddol bosibl ar rai grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, teuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol, a chydlyniant cymunedol. Nodwyd hefyd bryderon penodol ynghylch effaith bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd anffurfiol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Fodd bynnag, ar sail yr asesiad cydraddoldeb cyffredinol, y dystiolaeth a nodir yn yr asesiadau effaith cysylltiedig, a'r mesurau lliniaru a ddisgrifir, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn nad yw'r cynnig yn debygol o arwain at effaith negyddol arwyddocaol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod polisïau a gweithdrefnau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu, a bod anghenion unigol yn cael eu hystyried yn briodol.

Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn Ysgol Talysarn.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

c. Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant ar y cynnig a diweddarwyd yr asesiad wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Yn yr asesiad diweddaraf, nodir fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon penodol ynghylch effaith y cynnig ar ddysgwyr bregus, a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig, y byddai'r cynnig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch (75%) yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned Nantlle yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Bydd y cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

## 9. ARGYMHELLIAD

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth lawn i'r materion a godwyd ac fe gynhaliwyd gwerthusiad ac asesiadau effaith pellach o'r cynnig, ynghyd â'r opsiynau amgen a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd â'r opsiynau amgen a nodwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Ar sail ystyried yr elfennau uchod, daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw o'r opsiwn amgen a ystyriwyd yn mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, sef:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** - Dengys data Ionawr 2026, fod 6 dysgwr llawn amser a 2 ddysgwr Meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Gyda 6 o ddysgwyr (Derbyn i Flwyddyn 6) ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 55, mae 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 89% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr Meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin - Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Baladeulyn 54 (87%) o lefydd gweigion.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** – Yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) mae un dosbarth sy'n cynnwys pob dysgwr yn yr ysgol – sef 6 dysgwr Derbyn-Bl.6 (Derbyn, Bl.1 a 2, a Bl. 4 a 5) ynghyd â 2 ddysgwr Meithrin. O fewn y dosbarth hwn, caiff grwpiau gwahanol eu ffurfio ar wahanol adegau o'r dydd, gyda'r cymorthyddion yn arwain y gweithgareddau gyda'r dysgwyr ieuengaf. Mae hyn felly yn golygu mae'r amrediad oedran yn y dosbarth cyfan yn ymestyn hyd at 8 mlynedd.
- **Rhagamcanion niferoedd** - Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf, gyda rhagamcan o 7 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Ionawr 2026 fod 8 o blant yn byw yn nalgylch Baladeulyn. O'r rhain mae 25% (2 blentyn) yn dewis mynychu Ysgol Baladeulyn, tra bod 75% (6 plentyn) yn dewis mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.
- **Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd** – Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn

amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £74,446.
**Cyfartaledd cost fesul dysgwr –** Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £25,123 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998.

Wrth ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol a'r asesiadau effaith, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn bod y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn briodol, yn gymesur ac er budd gorau dysgwyr yr ardal yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymgynghorai, yn enwedig ynghylch rôl yr ysgol yn y gymuned leol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod Ysgol Baladeulyn yn wynebu heriau sylweddol nad ydynt yn debygol o gael eu datrys heb newid sylfaenol i'r ddarpariaeth.

Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:

- Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Baladeulyn, ynghyd â rhagolygon sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;
- Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;
- Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;
- Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir

Ar y cyfan, ar ôl ystyried y dystiolaeth, y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, y gwerthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen, ynghyd â chyfeiriad strategol y Cyngor, mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel y nodir uchod) a'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig, ac felly'n parhau i'w argymell fel y modd mwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol.